

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 352 - 60c
Ebrill 2017

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Cymwynaswr y flwyddyn



Tudalen 12

Cadwyn Cyfrinachau arall



Tudalen 24

Ni ar y ffordd i Ben-y-bont i'r 'Steddfod



Tudalen 15, 16, 29, 30

Beth ddaw o'r ysgolion?

Yn ystod y mis nesa', fe fydd pobl plwyfi Llanwenog a Llanwnnen yn derbyn taflen fach trwy'r drws yn holi eu barn nhw am ddyfodol adeiladau'r tair ysgol gynradd yn y cylch.

Y nod yw ceisio gweld a fydd y gymuned yn gallu gwneud defnydd o'r adeiladau wrth iddyn nhw ddod yn wag a rhoi cymorth i'r awdurdodau wrth iddyn nhw ystyried beth i'w wneud nesaf.

Fe fydd y tair ysgol – Cwrtnewydd, Llanwenog a Llanwnnen - yn dod yn wag ar ôl yr haf, pan fydd y plant i gyd yn mynd i Ysgol Dyffryn Cledlyn yn Drefach.

Ar ôl cael cyfarfodydd gyda'r ddau gyngor cymuned yn yr ardal, mae mudiad lleol – Cynghair Ward Llanwenog – wedi rhoi taflen ddwyieithog at ei gilydd gydag ychydig gwestiynau yn holi am syniadau.

Fe fydd honno'n cael ei dosbarthu i bob tŷ yn y ward ac fe fydd mannau hwylus ar hyd a lled yr ardal er mwyn 'postio' yr atebion. Fe fydd hi'n bosib llenwi'r holiadur ar y We hefyd.

Nod y Gynghair yw hybu bywyd y cymunedau yn y ward, yn enwedig y bywyd Cymraeg.

Dyma farn y Gynghair ...

Mae'r tair ysgol wedi bod yn ganolfannau pwysig ym mywyd yr ardal ac mae'n hanfodol gweld a oes modd iddyn nhw barhau i gyfrannu i fywyd y cylch.

Os na fydd y cymunedau'n cynnig syniadau, does neb yn gwybod pwy fydd yn prynu'r ysgolion nac at pa bwrpas.

Mae'r adeiladau gwag yn cynnig cyfle hefyd i lenwi rhai o'r bylchau ym mywyd y gymuned – mae'r holiadur yn gofyn pa adnoddau sydd fwyaf eu hangen yn y cylch.

Y posibiliadau

Mae'r holiadur yn cynnig rhai syniadau ond y gobaith yw y bydd pobol yr ardal yn cynnig rhagor o syniadau a rhai gwell.

Mae'r syniadau sydd gerbron eisoes yn amrywio o ddefnydd cymdeithasol i fusnesau bach cymunedol a defnydd twristiaeth.

Mae'r tri phentref a'r tri adeilad yn wahanol iawn ac mae'n bosib y bydd y syniadau'n amrywio llawer o ardal i ardal.

Y bwriad wedyn yw casglu'r syniadau at ei gilydd a dechrau trafodaeth i weld pa rai sy'n bosib.



Ysgol Cwrtnewydd



Ysgol Llanwenog



Ysgol Llanwnnen

Pasg Hapus i bawb



Dathlu llwyddiant



Llun cast "Noson yng nghwmni" C.F.F.I. Llanllwï ynghyd â Gari a Catrin Davies, cynhyrchydd ac arweinyddes y cast a sicrhodd y 3ydd safle yng nghystadlaeth C.F.F.I. Sir Gâr yn ddiweddar.



Alan Drury a oedd yn cynrychioli Wales for Stroke Association yn derbyn £3,250 gan Janice Williams, Eiry Morgan o 'duet' a Bethan Portnow Lan Llofft. Dyma arian a godwyd yn dilyn sioe ffasiynau llwyddiannus gan 'duet' a Lan Llofft yng ngwesty Tyglyn Aeron. Yn y llun hefyd mae Heather Price o Barclays Bank a gynigodd £ am £ ar gyfer yr achlysur.



Aelodau o bwyllgor cangen Llanybydder a Llambod o Ymchwil Cancr a fu'n gyfrifol o gasglu £9,800.00 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i bawb sydd wedi helpu a chyfrannu tuag at yr achos.

Teulu Clyncoch yn cefnogi Ambiwylans Awyr Cymru



Dyma deulu Clyncoch yn cyflwyno sic o £2464.00 i Mrs Ross Jones o Ambiwylans Awyr Cymru sef yr arian a godwyd gan y teulu mewn cyngerdd yn Neuadd yr Hafod mis diwethaf. Dymuna'r trefnwyr ddiolch o galon iddynt am fodloni cynnal y noson, y cyntaf fel Teulu Clyncoch. Noson i'w chofio. Diolch hefyd i Heno am eu presenoldeb ac i bawb a gefnogodd y noson.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
@Clonc360 neges
@Craffwr
Mawrth 20
Ymateb da i gyflwyniad
@MOCIFAN am daith
#Patagonia gyda'r
@Urdd yng Nghymdeithas
Ddiwylliadol Bethel
Parcyrhos heno.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cfillanwenog
Mawrth 18
Dirprwy rhif 31
i'r clwb neithiwr!
Llongyfarchiade
@ElinLifestyle!
#swyddogion2017-18
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Mawrth 18
Noson lwyddiannus
iawn neithiwr yn
@drindoddewisant
#Llanbed gyda
@MeibionYmynydd a
chodi arian da tuag at
@TheBHF.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@LampeterTownRFC
Mawrth 12
Llongyfarchiadau i
dîm dan 14 ar ennill
gêm gyn derfynol
heddiw yn erbyn
Felinfoel. Gêm
ardderchog bois.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@DelythPhillips
Chwefror 17
Noson hyfryd yn dathlu
Gŵyl Ddewi gyda
chymdeithas ddiwylliannol
Shiloh a Soar, Llambod,
yng nghwmni Trefor Pugh
ac Eleri Roberts.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cffiobrodderi
Chwefror 14
Pawb wedi mwynhau
heno yn cogonio a bwyta
pancws!
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Ebrill Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Hiwmor mewn oriau tywyll

Flwyddyn yn ôl fe wnes i sgrifennu am hiwmor. Ac yn rhyfedd iawn, dyna oedd yn fy nharo i eto wrth feddwl am beth i'w sgrifennu y tro 'ma.

Gweld hysbyseb wnes i am lansiad llyfr diwedddara'r gyfres 'Syniad Da' gan Wasg Carreg Gwalch, sef 'Teulu'r Gymwynas Olaf - Gwilym C. Price ei Fab a'i Ferched'. Nawr, fydddech chi ddim yn disgwyl i hynny fod yn destun hiwmor! Ond o'r hyn rwy' wedi'i glywed a'i ddarllen am y llyfr, ac o adnabod rhai o'r teulu, rwy'n gwybod na fydd hiwmor yn bell.

Mae marwolaeth yn rhywbeth na allwn ni ei osgoi. Bob mis yn Clonc fe ddarllenwn ni am deuluoedd sydd wedi colli anwyliad. Ac mae galar yn rhan o fywyd, gwaetha'r modd. Cael benthyg ein gilydd a wnawn ni - allwn ni ddim dal gafael ar neb am byth bythoedd. Yn hynny o beth, mae gan ymgymerwyr angladdau rôl eithriadol o bwysig i'w chyflawni, sef bod gyda theuluoedd yn awr dywylla' eu hanes. Jobyn anodd, ond mae'n siŵr ei fod yn swydd 'rewarding'.

Yng nghanol tywyllwch a marwolaeth a galar serch hynny, mae'n bosib dod o hyd i obaith a chynhesrwydd ac ie, hyd yn oed hiwmor. Fel pob jobyn caled, mae cael synnwyr digrifwch a chadw gafael ar ysgafnder bywyd yn rhywbeth sy'n rhaid i bobol ei wneud, am wn i.

Soniais i llynedd am y gyfres 'Ti'n Jocan' (Y Lolfa) gan nodi enwau awduron sawl llyfr - Lyn Ebenezer, Dai Jones Llanilar, Emyr Llywelyn, Ifan Tregaron, Dewi Pws, Eirwyn Pontshân, Goronwy Evans, Peter Hughes Griffiths. Er nad yw 'Teulu'r Gymwynas Olaf' yn yr un gyfres nac yn cynnwys yr un math o destun, nac wedi'i fwriadu at yr un pwrpas, mae'n ddiddorol nodi eto cymaint o gymeriadau gwledig, yn aml iawn o'r gorllewin, sy'n llwyddo i gynnwys hiwmor yn y Gymraeg.

Daliwn ati i werthfawrogi hiwmor, mewn storm a hindda. Os collwn ni'r gallu i wenu ac i chwerthin, bydd hi'n eitha tlawd arnon ni.

Cloncen

C.Ff.I.

Mewn dawns yng Ngwesty Llanina yn ddiweddar cyhoeddwyd mai Brenhines Mudiad y Ffermwyr Ifanc Ceredigion am 2017-2018 yw Esyllt Ellis Jones, Llangwryfon a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yw Morys Ioan, Caerwedros gyda'u dirprwyon (chwith) Angela Evans, Tregaron; Aled Davies, Caerwedros; Steffan Rhys Nutting, Talybont ac Elin Haf Jones, Llanwenog.



Beca Jenkins, Cwmsychpant ac aelod C.F.F.I. Pontsian [canol] a ddaeth yn gydradd 3ydd fel Cadeirydd Siarad Cyhoeddus Saesneg dan 14 oed C.F.F.I. Cymru. Roedd Gwion Ifan, C.F.F.I. Pontsian a Sioned Fflur Davies, C.F.F.I. Llanwenog yn aelodau o'r tîm a ddaeth yn 4ydd.



Tim Siarad Cyhoeddus Saesneg Sir Gâr dan 14 oed yn dod yn 2il ar lefel Cymru - Catrin, C.F.F.I. Llandeilo, Elan, C.F.F.I. Cwmann [canol] ac Eli, C.F.F.I. Llandeilo. Cafodd Elan cydradd 3ydd fel Cadeirydd hefyd.



EBRILL

- 7 Dawns Dewis Brenhines Carnifal Llanybydder yn y Clwb Rygbi am 6.30y.h.
7 C.Ff.I. Llanllwni yn cynnal noson Bingo yn Talardd, i ddechrau am 8.00yh.
8 Her Llysgenhadon a Chadeirydd CFfl Sir Gar yn beicio o amgylch y sir. Llanllwni am 9.45yb a Chwmann am 10.45yb.
8 Carys y gantores yn diddanu yng Nghlwb Pel-droed Llanbed am 9.00yh.
8 Noson Gemau yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 6yh i godi arian tuag at daith y Tîm Ieuenctid i Iwerddon.
7-8 Sioe Ysgol Ddawns Sally Saunders yn Theatr Felinfach 6.30yh bob nos a 2.00yp ar ddydd Sadwrn.
11 Bingo Pasg yng Nghartref Cwm Aur Llanybydder am 8.00yh.
15 Helfa Drysor Pasg y Forn Gron 9.00yb - 1.00yp Sgwar Harford, Llanbed.
16 Cymanfa Fodern i ddathlu'r Pasg yng Nghapel Nonni, Llanllwni am 7.30 y.h. Arweinydd: Mrs. Elonwy Davies, Cyfeilydd: Mr. Bryan Jones, Artistiaid Lleol. Elw tuag at Apel Sir Gâr, Sir Nawdd CAFC 2017
17 Taith Tractorau. Gadael Dolgran, Pencader am 10.30y.b. Elw tuag at Ymchwil i Alzheimers. Manylion oddi wrth Tom Lewis, Aneddle, Pencader 01559 384279.
18 Cinio 3 chwrs ac Ocsiwn Elusennol 50 mlynedd Ford Gron Llanbed yn Ffreutur Lloyd Thomas gyda Nigel Owens. Tocynnau £35 - 07791 629140.
19 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Groes, Llanwnnen i gychwyn am 1:30y.p.
22 Sioe Feirch Llanbed ar gaeau Llanllyr am 9.00yb.
23 Taith Dros Fywyd gadael Ysgol Llanwenog am 10.00y.b. Taith o ryw 5 milltir gyda lluniaeth i ddilyn. Codi arian tuag at Kidney Research Wales / Sefydliad Aren Cymru.
23 Cymanfa Ganu Undodiaid yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant. Plant ac Ieuenctid am 1.30 ac Oedolion am 5.00.
23 Taith Dros Fywyd gadael Penrhyn ger Ysgol Carreg Hirfaen am 10.30yb.
24 Derbyn Newyddion CLONC.
24 Fforwm Papurau Bro Ceredigion yng Nghanolfan Addysg Felinfach.
24 Cyfarfod Blynnyddol Transition Llambled yn Neuadd Fictoria Llanbed am 7.30yh.
27 Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion yng Ngwersyll Llangrannog.

MAI

- 1 Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd.
1 Gŵyl Mai Neuadd Pumsaint Sioe, Carnifal, Coets, mabolgampau a rhagor. Mwy o fanylion wrth Mair 01558 650309 neu Christine 01558 685439.
3 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
5 Arddangosiad Dartiau gyda Andy Fordham a Trina Gulliver yng Nghlwb Rygbi Llanbed. Ffoniwch Bedwyr 07580 128039 am docynnau.
5 Dau Seicig - Deborah Rees a Paul Rees yng Nghlwb Pel-droed Llanbed am 7.30yh.
5 Cinio Mawreddog Ardal Gogledd Sir Gaerfyrddin yn Neuadd Lloyd Thomas Coleg Llanbed am 7.30yh i godi arian tuag at y Sioe Fawr.
6 Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg. Am ragor o fanylion cysylltwch â Emyr Griffiths ar 01545 590383 neu Enfys Llwyd ar 01545 590295.
6 Noson canu gwlad yn y clwb rygbi Llanybydder am 7.30y.h.
9 Noson Goffi ac Adloniant yn Ysgol Bro Pedr gan Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambled am 7.00y.h.
13 Rali CFfl Sir Gaerfyrddin.
14 Cyngerdd gan Cardi-Gân yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
14 Rihysal Cymanfa'r Bedyddwyr am 2.00y.p.
16 Cyfarfod Blynnyddol Papur Bro CLONC yng Nghlwb Golff Cilgwyn am 7:00y.h.
17 Te Prynawn Ymchwil y Cancr yn Y Pantri, Llanbed am 2:00yp.
19 Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h.
20 – 21 Twrnament Pêl-droed Llanybydder ar y Cae Rygbi.
21 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled yng nghapel Noddfa am 4.00y.p.
26 Noson Gwis R.A.B.I Ceredigion yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. £10 yr un, i gynnwys Selsig a Sglodion. 7 ar gyfer 7.30.
27 Carnifal Cwmann ar gae'r pentref.
28 "It's a Knockout" ar Gae Rygbi Llanybydder am 1.00y.p.
28 Taith Tractorau Drefach i ddechrau o gaeau Maesyrnnon am 10.30y.b. Manylion pellach: Peter 01570 434342 neu Jeff 01570 481121.

MEHEFIN

- 1-3 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
3 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Nhregaron.
17 Sialens 60 milltir C.Ff.I. Llanwenog.
18-24 Wythnos carnifal Llanybydder.
24 Carnifal Llanybydder ar y Cae Rygbi.
30 Noson Rasys Sarn Helen Ysgol Felinfach.

GORFFENNAF

- 1 Diwrnod hwyl C.Ff.I. Llanwenog yng Nghaerwenog, Penffordd.

AWST

- 26-28 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn 50 oed.

MEDI

- 16 Cyngerdd Mawreddog Dathlu 50 oed Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Theatr Felinfach. Artistiaid: Côr Canna, Steffan Rhys Hughes a Charlie Lovell Jones. Tocynnau o'r Theatr 01570 470697.
17 Aberduar 275: Oedfa'r dathlu am 2.00y.p, te i ddilyn a Chymanfa Ganu am 6.00y.h. Croeso i bawb.



Llongyfarchiadau i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ar ennill tarian Aelod Iau mwyaf gweithgar am y flwyddyn 2016-17 yng Nghinio Blynnyddol C.Ff.I. Pontsian.

Cydymdeimlo

Ddiwedd mis Chwefror colodd Sian Jones, Blaenhirbant Uchaf a'r teulu ei mamgu / hen famgu a oedd yn byw yn ardal Llanymddyfri.

Hefyd bu farw Eddie Evans, brawd Betty Evans, Caerau Bach yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Brian a Mair Potter, Rhosllwyn ar ddod yn ddateu a mamgu unwaith yn rhagor, mab bach, Macs i Trystan a Gemma yn Llambled.

Gymanfa Ganu

Bydd Gymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel y Cwm ar ddydd Sul, Ebrill 23ain am 2:00 a 5:30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cyngerdd

Cynhelir Cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân ar nos Sul, Mai 14eg am 7:30y.h. yng Nghapel y Cwm. Mae tocynnau £7 ar gael oddi-wrth aelodau'r Capel – a chroeso cynnes i bawb. Llywydd y noson fydd Dennis Davies, Penlon Esger, Pontsian.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr
gyda'r gwaith o
gynhyrchu'r papur
hwn, croeso i chi
gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

O'r Cynghorau Bro



CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Mawrth 2017 am 8.00yh. Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Fe'u croesawyd gan y Cadeirydd a chafwyd trafodaeth am ddatblygiad arfaethedig yn y pentref.

Estynwyd cydymdeimlad i Tom Jones ar farwolaeth ei chwaer ac i Emyr Evans ar farwolaeth ei gefnder.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

COMISYNYDD YR HEDDLU: Roedd y Clerc wedi cysylltu â Dafydd Llywelyn ers y cyfarfod diwethaf drwy ebost ond heb dderbyn ymateb. Roedd Linda Evans wedi danfon llythyr ynglŷn â'r parcio gwrthgymdeithasol ar y palmant ger Garej Celtic Classics i Adran Briffyrdd Cyngor Sir Gâr.

CWMNI RES: Cadarnhawyd gan Linda Evans na fyddai datblygiadau pellach cyn mis Ebrill eleni.

Y CAE CHWARAE: Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o gadarnhad bod popeth parthed pryniant y cae wedi ei drosglwyddo i'r cyfreithwyr.

Roedd yr arwydd "Araf, Plant yn Chwarae/Slow, Children Playing" wedi ei osod yn ei le.

MANTOLEN: Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

CWARE MOWNT: Roedd angen gwagio'r sbwriel oedd yn y bin.

Roedd Linda Evans yn mynd i gysylltu â Chyngor Sir Gâr.

Penderfynwyd cefnogi: Gwersyll yr Urdd Llangrannog; CFFI Sir Gâr.

ETHOLIAD 2017: Dymunwyd yn dda i'r cynghorwyr a oedd yn ymdeol. Diolchwyd iddynt oll am eu gwasanaeth cydwybodol gan y Cadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 8 Mai 2017 am 8.00yh, pan gynhelir y Cyfarfod Blynnyddol.



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

R.A.B.I.



Cynhaliwyd Bore Coffi Gŵyl Dewi yn Neuadd Pumsaint ar ddydd Sadwrn, 4ydd o Fawrth i godi arian ac ymwybyddiaeth i'r elusen amaethyddol, The Royal Agricultural Benevolent Institution (R.A.B.I.). Llywyddion y bore oedd Mr a Mrs Elfyn Davies, Ffarmers, a diolch iddynt am y rhodd hael tuag at waith yr elusen, ynghyd ag anerchiad hynod o briodol. Cynhaliwyd raffl yn ystod y bore, ynghyd â chyfle i brynu cacennau oddi ar y stondin cacennau a oedd yn llawn dop! Cafwyd hefyd anerchiad ffieithiol gan Linda Jones, rheolwr rhanbarthol Cymru ynghylch gwaith yr elusen. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu gwobrau raffl, a chacennau ar gyfer eu gwerthu. Llwyddwyd i godi £675 yn y digwyddiad - swm arbennig iawn. Diolch i drigolion caredig Pumsaint, sef Iris Williams, a'i chwiorydd, Llinos, Anwen, a Rhiannon a Rhiannon Merched o bwyllgor R.A.B.I Sir Gâr am drefnu'r digwyddiad. Diolch hefyd i bawb o'r ardal ym Mhumsaint a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad.



Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambod, Ceredigion, SA48 8LT

Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)



Ymddiheuriadau

Ymddiheuriwn am y camgymeriad yn Rhifyn Clonc diwethaf

Cydymdeimlwn â Mrs Mair Williams, 7 Bryndulais ar golli ei gŵr yn ddiweddar sef Cyril Williams ac nid Cyril Jones.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd arbennig iawn i Mr John Evans, Aberdeuddwr sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn ystod mis Mawrth. Dymuniadau gorau i chi.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Eirwyn Davies, Dolgorse yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Mair a theulu’r diweddar Cyril Williams, 7 Bryndulais a hunodd ym mis Chwefror, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt ym eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau, blodau, rhoddion a galwadau ffôn.

Dymuna Marlene Rees, Beddau [7 Bryndualis] hefyd ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob arwydd o gareidgrwydd yn ystod y cyfnod anodd yma tra yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforys.

Dymuna Mrs Betty Davies a theulu’r diweddar Mr Lewis Davies, Beili Bach [Gwndwn gynt] ddiolch o waelod calon am bob cefnogaeth ac arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu colled. Maent hefyd yn ddiolchgar am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdano tuag at goffrau Eglwys y Plwyf.

Ysgol Llanllwni

Cydymdeimlwn â Rhian Davies a’r teulu ar farwolaeth sydyn ac annisgwyl ei mam, Mrs. Diane Davies, Saron. Bu Diane yn gynorthwywraig dosbarth am nifer o flynyddoedd cyn ei swydd yn ysgol Penboyr. Roedd yn weithgar ac yn llawn hwyl. Daw Rhian atom un diwrnod yr wythnos i wneud gwaith gweinyddol ac ar fin dychwelyd ar ôl cyfnod mamolaeth.

Cawsom ein Eisteddfod Gŵyl Ddewi ar y 1af o Fawrth pan bu pob plentyn yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau megis canu, llefaru, actio, dweud jôc, dawnsio, llawysgrifen a gwaith celf. Cafwyd brynhawn llawn hwyl. Rydyn yn ddiolchgar i Mrs. Margaret Davies, Garej Tegfan am ddod i feirniadu. Tîm Teifi oedd yn fuddugol ar ddiwedd y cystadlu ac yn ennill y darian. Hoffwn ddiolch yn fawr i Mrs. Eirlys Owen am gyfeilio ac am ddod mewn i ymarferion dros y bythefnos cyn yr Eisteddfod. Roedd yn braf gweld cynifer o rieni a ffrindiau wedi dod

i gefnogi’r plant, diolch yn fawr. Bu Mr. Tim Jones, y ffotograffydd heibio yn y bore gan dynnu lluniau o’r plant yn eu gwisg traddodiadol.

Yna, ar yr un noson, aeth nifer o’r plant i noson “Cawl a Chân” yn Llanfihangel-ar –arth gan ddiddanu’r gynulleidfa drwy lefaru , canu a chwarae telyn. Cawsant ganmoliaeth am safon eu gwaith – da iawn chi blant.

Cynhaliwyd gyngerdd llwyddiannus iawn yng Nghapel Nonni ar Nos Wener, 3ydd o Fawrth a drefinwyd gan Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau’r Ysgol. Arweiniwyd y noson yn hwylus iawn gan Mr. Owain Davies, Gwndwn, cyn-ddisgybl yr ysgol. Cafwyd eitemau gan “Lleisiau’r Werin” a phlant yr ysgol. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan y Llywydd, sef Mrs Mair Williams, Rhydlydan, Pumsaint. Soniodd am yr amser oedd hi yn ddisgybl yn yr ysgol a phwysleisiodd bwysigrwydd cadw ysgolion bach ar agor. Diolch i Mr. a Mrs. Williams am eu rhodd haelionus. Gwnaed elw o £615 tuag at gronfa’r C.Rh.A. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw ffordd.

Ar Ddiwrnod y Llyfr fe wisgodd nifer o’r plant fel eu hoff gymeriadau mewn llyfrau a chawsom storïau a thynnu lluniau.

Daeth Mr. Ian Smith o’r Amgueddfa i wneud gweithgareddau am yr ardal leol gyda plant yr Adran Iau .

Cynlluniwyd gweithgareddau pwrpasol gogyfer â Diwrnod Masnach Deg sef Pwynt Pwer, defnyddio’r We i chwilio gwybodaeth a chasglu bwydydd yn dangos y logo.

Daeth cwmni Finesse i’r ysgol i dynnu lluniau’r plant- roedd pawb yn edrych ar ei orau!

Llongyfarchiadau i Alwena Owen ar ei llwyddiant Yng Ngŵyl Offerynnol yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Fe gafodd Alwena yr ail safle am chwarae’r Delyn. Da iawn ti!

Bu rhai disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Llanbed. Da iawn chi blant a fu’n llefaru a chanu yn y rhagbrofion yn y bore. Bu’n ddiwrnod prysur a llwyddiannus iawn i Alwena a’i chwaer Gwennan. Cafodd Alwena a’i ffrind Cerys o Bencarreg ddau gyntaf - y ddeuawd Blwyddyn 6 ac Iau a’r ddeuawd Cerdd Dant Blwyddyn 6. Hefyd cafodd Alwena yr ail safle yn yr Unawd Blwyddyn 3 a 4, Llefaru Blwyddyn 3 a 4 ac yn yr Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4 a thrydydd yn yr Alaw Werin Blwyddyn 6 ac Iau. Cafodd Gwennan gyntaf yn yr Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 2 ac Iau a daeth hefyd yn ail yn yr Unawd a’r Llefaru Blwyddyn 2 ac Iau. Yn dilyn

y llwyddiant yma bu Gwennan yn cystadlu yn yr eisteddfod sir gan gipio y safle cyntaf yn yr unwed cerdd dant Blwyddyn 2 ac iau. Llwyddodd Alwena a’i ffrind Cerys gipio y safle cyntaf hefyd am y ddwy ddeuawd hefyd. Da iawn chi ferched a phob lwc yn y Genedalethol ym mis Mai.

Bu’r Grŵp Llefaru yn adrodd y darn “Gwenllian yn y Gât” yn y cylch gan wneud eu gorau. Roedd yn brofiad newydd i lawer ohonynt gan mai aelodau o’r Cyfnod Sylfaen oedd y mwyafrif. Diolch i Mrs. Marina Davies, New Inn am ei chymorth a dymunwn wellhad buan iddi.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Mawrth -
1af - £10 – Doreen Davies, Dolwerdd, Gwyddgrug. 2ail - £5 – Eifion Jones, Tirbanal, Llanymddyfri. 3ydd - £5 – Nicola Gordon, 11 Bro Nantlais, Gwyddgrug.

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg bob bore ar gampws yr ysgol gynradd rhwng 8.45-12, ac yn cynnig addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Bethan Vernon ar 07875409172 neu bethan704@btinternet.com

Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi yng Nghapel Nonni: Gwnaed elw o £615.00.

Am y tro cyntaf, cynhaliwyd Eisteddfod yn y Cylch Meithrin ar y 1af o Fawrth. Cafodd y plant gyfle i berfformio yn unigol a fel grŵp o flaen eu rhieni a theulu. Roedd yn fore llwyddiannus dros ben gyda’r plantos yn ceisio eu gorau, da iawn chi blant! Fel rhan o thema ‘Storïau Tylwyth Teg’, mae’r plant wedi mwynhau gwrando ar storïau gwahanol megis ‘Y Tri Mochyn Bach’ ac ‘Elen Benfelen’ pob wythnos ac yn dangos boddhad yn yr amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â’r storïau. Braf oedd gweld y plant yn mwynhau ac yn frwdfrydig wrth ehangu eu dealltwriaeth. Cafodd y plant, rhieni a staff y Cylch gyfle i ymweld â ddrysau Tylwyth Teg ger Aberaeron ar ddiwedd y mis.

Ar ddydd Gwener 24ain o Fawrth, gwisgodd y plant eu dillad tu ôl tu blaen gyda’u trwynau coch er mwyn codi arian i Comic Relief. Braf oedd gweld y plantos yn fodlon gwneud rhywbeth dwl am achos da.

Cynhelir noson bingo yn Talardd am 8yh ar y 3ydd o Ebrill. Mi fydd gwobrau arianol i’w hennill a lluniaeth ar y noson. Croeso cynnes i bawb!

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob prynhawn dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1-3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalgwyr, mamgu’s a thadcu’s i ddod gyda’u plant i fwynhau gwahanol gweithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

C.Ff.I. Llanllwni

Ni wedi cyrraedd chwarter ffordd trwy 2017 yn barod-anodd credu! Erbyn hyn rydych siwr o fod wedi clywed canlyniadau’r “Noson yng Nghwmni...” Sir Gâr, ond i’r rhai sydd heb, cyhoeddwyd bod Llanllwni yn y trydydd safle ar ôl tair noson o gystadlu brwd yn Neuadd San Pedr. Llongyfarchiadau i’r cast i gyd! Yn ogystal ar y noson canlyniadau, cyhoeddwyd mai Sioned Howells o glwb Llanllwni yw aelod iau C.Ff.I Sir Gâr am y flwyddyn 2017. Da iawn ti Sioned, a rydym fel clwb yn dymuno pob lwc i ti yn y swydd. Joia’r cyfle! Sioned yw’r pedwerydd aelod o Lanllwni i dderbyn y cwpan hwn, felly mae’n argoeli fod yna ddyfodol disglair iawn i Lanllwni am flynyddoedd i ddod! Perfformiwyd y “Noson yng Nghwmni...” ar bedwar achlysur arall ar ôl y gystadleuaeth, yn dilyn gwahoddiad gan glybiau lleol. Diolch i glybiau Llanwenog, Pontsian a Throedyraur am y cyfle a’r croeso a gawsom wrth ymuno â chi. Ar nos Fercher y 1af o Fawrth, fe fu rhai o aelodau’r clwb yn diddanu yn noson cawl Neuadd Llanfihangel. Diolch eto am y croeso a’r cawl blasus!


Fe aeth tîm iau a hŷn o’r clwb i noson bowlio deg y Sir yng Nghaerfyrddin, lle cafwyd noson ddigon hwylus. Ar nos Sadwrn yr 11eg o Fawrth cynhaliwyd ein cyngerdd blynyddol yn Neuadd Llanfihangel. Cafwyd amryw o eitemau gan aelodau’r clwb yn yr hanner cyntaf, a pherfformiwyd y “Noson yng Nghwmni...” yn yr ail hanner. Arweinydd y noson oedd John Jones, Talardd, a diolch iddo am ei gyfraniad tuag at lwyddiant y noson. Llywydd y noson oedd Mrs Marina Davies, Heddfryn, ond yn anffodus methodd a fod gyda ni oherwydd salwch. Fodd bynnag, fe drosglwyddwyd ei neges o ddymuniadau da i’r cyngerdd trwy law ein cadeirydd, Ifor Jones. Diolch iddi am ei geiriau a’i rhodd hael tuag at y noson, a dymunwn wellad buan i iddi. Mae llwyddiant y perfformiad hwn wedi dod trwy law Gary Davies, a oedd wedi ysgrifennu’r sgript yn ogystal a’i chynrychu. Diolch i ti Gary am dy gwmni, amynedd a’th amser yn ein hyfforddi! Diolch arbennig hefyd i’w wraig, Catrin, a gafodd y dasg pleserus o hyfforddi’r cantorion i’r perfformiad. Llwyddodd Catrin i

Llanllwni

gyflawni gwythiau trwy gael côr digon swynol allan ohonom! Diolch o waelod calon i chi eich dau.

Cafwyd noson hwylus a llawn sbort lawr yng Nghapel Iwan yn ddiweddar, wrth i ni ymuno â'r aelodau yno am noson o gystadlu brwd! Diolch i chi am y gwahoddiad a'r croeso.

I orffen cystadleuthau Mis Mawrth, cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes y Sir ym Mart Llanybydder, yng ngofal y clwb. Diwrnod digon pleserus a gawsom, o dan awyr las trwy gydol y dydd. Diolch i Teulu Gwndwn am baratoi'r gwartheg godro, a Wyn Thomas, Brynlllo am y gwartheg biff. Diolch hefyd i Owen Maesllanwrthwl a'r teulu am yr ŵyn ac i Hefin Parce am y moch. Diolch hefyd i'r holl stiwardiad a'r cynorthwyyr a fuodd gyda ni yn ystod y dydd.



I goroni diwrnod braf a llwyddiannus, pleser oedd clywed mai Anwen Jones, Blaenblodau yw Stocmon Hŷn y flwyddyn 2017. Llongyfarchiadau i ti Anwen, a phob lwc i ti ar lefel Cymru ar ddiwedd Mis Ebrill.

Pob lwc hefyd i Owain Davies a

Sioned Howells a fydd yn cystadlu ar Ebrill y 1af yn Llanellwedd yn siarad cyhoeddus Cymru ar ran Sir Gâr. Cofiwch brynu rhifyn mis nesa 'to i gael y canlyniadau!

Ar nos Wener y 7fed o Ebrill fydd y clwb yn cynnal noson Bingo yn Talardd, i ddechrau am 8yh. Croeso i chi gyd ymuno a ni. Hwyl am y tro!

Eglwys Sant Luc

Clwb 100

Enillwyr mis Mawrth 2017
1af - Tom Jones (rhif 124)
2il - Sian Davies (rhif 51)
3ydd - Bethan a Catrin (rhif 27)
Diolch i bawb am gefnogi.

Undeb y Mamau

Daeth Tom Dafis o Gymorth Cristnogol atom i gyfarfod mis Mawrth. Amlinellodd ei waith gyda'r mudiad, ac aeth â'r aelodau i'r gwahanol wledydd mae wedi ymweld. Roedd ei neges yn glir, a rhai o'r adroddiadau yn ddirdynol. Diolch iddo am ei amser, a'i ymroddiad.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs. Betty Davies, aelod oes a fu'n ffyddlon iawn yn Sant Luc, ac sy wedi ymgartrefu yng Nghartref Allt-y-Mynydd. Mae'r aelodau yn meddwl llawer amdanoch, Betty ac anfonwn ein cofion a'n cariad atoch.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Eirwyn Davies, Dolgorse yn dilyn llawdriniaeth ac i Marlene Rees (7 Bryndulais gynt) yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Rhian Davies, Brynhedd a'r teulu yn dilyn marwolaeth sydyn mam a mamgu yn ddiweddar sef Diane Davies, Trewern, Saron.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Angharad o Bencarreg a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn yr unawd Telyn Bl. 6 ac iau; hefyd Deuawd Bl. 6 ac iau a Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau. Pob lwc i ti!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sian Elin Williams, Muriau Gwyn am ennill Perfforwraig Orau yn Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Sir Gâr. Arbennig Sian Elin. Pob hwyl i'r dyfodol.

Llanfair Clydogau

Cawl a Chwist - Sefydliad y Merched

Cafwyd noson arbennig o hwylus i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi pan ddaeth dros hanner cant o bobol ynghyd i chwarae chwist a bwyta cawl blasus wedi ei baratoi gan Eleanor Evans, Nantymedd. Sally Leech oedd yng ngofal trefniadau'r noson. Cafwyd cystadleuaeth o drefnu blodau'r Gwanwyn i oedolion a phlant, gyda Elaine Coombes, Penlanmedd yn ennill yr oedolion a Daniel Davies, Nantymedd yn ennill trefniant y plant. Enillwyr y dynion oedd Alan Leech, y menywod Paula Barker, a'r plant, Elonwy Thomas a Brynmor Thomas.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud y noson yn un mor lwyddiannus.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Paul a Helen John (Helen, Pentre gynt) am fod yn llwyddiannus i gael swyddi allan yn Hong Kong, Paul fel hyfforddwr rygbi i'r tîm saith bob ochr ac Helen fel athrawes ymarfer corff. Mae Paul wedi dechrau yn ei swydd yn barod, a bydd Helen yn cychwyn ym mis Medi.

Dymunwn iddynt, fel teulu, bob llwyddiant ac hapusrwydd tra y byddant yn byw yno. Profiad anhygoel a chyfle arbennig, i Mamgu a Dadcu cael gwyliau braf.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Arwyn ac Eleri, Pentre, a ddathlodd eu priodas aur ddiwedd mis Mawrth. Joiwch eich hunain a dymunwn i chwi iechyd da a phob bendith.

Noson Cwis

Daeth dros dri deg ynghyd i herio eu gwybodaeth mewn noson o gwis wedi ei drefnu gan Anwen Bell ac Emily Davies, Garej Troedrhwi. Nhw hefyd oedd yn gyfrifol am y cwestiynau. Cafwyd wyth bwrdd a phedwar ar bob un ac yn costio £5 y bwrdd, a hynny yn cynnwys lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Gwyneth Jones, Noyadd ac Eleanor Evans, Nantymedd. Roedd rhai hefyd wedi dod a diod a chreision eu hunain. Enillwyr y cwis oedd Tim 'Mouse's Ear' yn cynnwys Elaine a Ron Coombes, eu merch Diane a Simon eu ffrind. Y wobr oedd siocledi wedi ei rhoi gan Gwyneth. Pleserus hefyd oedd gweld rhai o blant y Pentre wedi dod i gymryd rhan. Roedd yr elw yn mynd at gronfa y Neuadd.

Sefydliad y Merched

Bywyd yn Llanfair a Chellan yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafwyd darlith ddiddorol iawn am yr hanes yma gan Alan Leech, Tan yr Esgair gyda Sally Leech yn rhoi y cyflwyniad a'r diweddgllo. I ddechrau rhoddodd Sally ddarlun i ni o bwysigrwydd yr ardal yn y

ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd Plas Llanfair yn bodoli a Thomas Johnes yn byw yno cyn symud i'r Hafod. Yn ystod yr amser yma roedd llawer o bobol pwysig a dylanwadol y wlad yn dod i ymweld ag ef yn y Plas yn Llanfair. Yna symud ymlaen i'r sefyllfa yn ystod y rhyfel pan aeth llawer o fechgyn yr ardal i'r fyddin. Ardal dlawd o ffermydd bach tenantiaid a thai 'unnos' oedd yr ardal fynyddig gyda llawer yn gweithio yn weision i'r boneddigion Teuluoedd mawr gyda y rhan fwyaf a'u bywydau ynghlwm wrth fywyd Capel Mair neu yr Eglwys Santes Fair. Ni wnaeth y rhyfel newid fawr ar eu byd. Ers hynny fe anwyd llawer o bobol clyfar a thalentog yn yr ardal e.e. Joseph Evans, Llanfair Fawr a oedd yn Ynad Heddweh, Dr. John Griffiths, Blaencwm a aeth ymlaen i fod yn Brif Arbenigwr Meddyginiaeth yn Sir Forgannwg, a Dan Jenkins, Prifathro Ysgol y Pentref. Hefyd pregethwyr a ffeiradon ac yn eu plith Y Parchedig David Williams, a anwyd yn Esgaircerwys. Efe a ysgrifennodd y llyfr diddorol 'Y Wladfa Fach Fynyddig' sydd newydd gael ei ddiweddarau a'i ailbrintio gan Sally ac Alan. Cafwyd cymaint o wybodaeth hanesyddol am y bobol a'r amser yma gan Alan gyda tua hanner cant o bobol wedi troi i fyny i wrando. Ar ôl y ddarlith cafwyd lluniaeth hyfryd wedi ei baratoi gan y merched. Diolchwyd i Sally ac Alan ar ran Sefydliad y Merched gan y llywydd Dodi Herschel, Nantfelin

Cydymdeimlo

Hoffem gydymdeimlo â Pat Lewis (Davies gynt) ar farwolaeth Dai, ei gŵr. Roedd Dai yn blismon yng Nghaerfyrddin cyn ymddeol a roedd Pat wedi ei geni a'i magu yn Woodlands, Llanfair cyn symud i fyw i Gaerfyrddin.



Gorsgoch

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Paul a Caroline Jones, Awel-y-grug ar ddathlu eu Priodas Arian yn ystod y mis.

Pencarreg

Diolch

Dymuna Caryl Jacob, Frondeg ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, anrhegion, arian, galwadau ffôn a'r dymuniadau gorau ac i bawb a fu'n ymweld â hi ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Dymuna Manon Williams, Muriau Gwyn ddiolch yn fawr am y cardiau a anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach
i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith
- o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

Gohebiaeth

Annwyl Olygydd

Ffair Hen Lyfrau Cymraeg a
Chymreig, Morlan, Aberystwyth, Dydd
Sadwrn, Mai 20fed, 10 y bore tan 4 y
prynhawn. (Mynediad £1.00, plant am
ddim)

Dim ond gair byr i hysbysu eich
darllenwyr am ddigwyddiad go
arbennig yng Nghanolfan Morlan,
Aberystwyth fis Mai eleni, sef Ffair hen
lyfrau. Bydd miloedd o lyfrau ail-law
a hynafiaethol Cymraeg a Chymreig yn
cael eu gwerthu yno gan lyfrwerthwyr o
bob rhan o Gymru. Felly beth bynnag
yw eich diddordeb, bydded yn hanes
Cymru, hanes lleol neu lenyddiaeth
dewch draw i chwilita. Bydd rhywbeth
yn siwr o fod at eich dant.

Bydd unrhyw elw a wneir yn mynd
at gyhoeddi Y Casglwr, sef cylchgrawn
Cymdeithas Bob Owen. Os hoffech
fwy o wybodaeth mae croeso i chi
gysylltu â mi trwy ffonio/tecstio 07930
160848. Dewch yn llu!

Yn gywir

Gwn Tudur (Trefnydd)



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbedr
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Amser Garddio?



Diwrnod Agored

Lle: Penffordd, Llanybydder, SA40 9XE

Dydd Sul y Pasg, Ebrill 16eg 2017

10yb tan 6yp

Croeso i bawb, te/coffi a chacenau ar gael am ddim.

Amrywiaeth o blanhigion ar gael yn cynnwys,
planhigion lluosffwydd, llwyni, perlysiau a phlanhigion
blynyddol am brisiau gwyh.

"Cynigion diwrnod agored arbennig"

Cewch afel arnom ar "facebook" new ffoniwch 01570

Yn y Gegin gyda Gareth



Pasg Hapus o Gegin Clonc

Mae'r Pasg yn sicr o ddod â'r teulu ynghyd – efallai am y tro cyntaf ers
y Nadolig. Mae'n sicr yn amser i ddathlu ac i fwynhau gwledd dymhorol.
Mae symbolau yn chwarae rhan bwysig yn nathliadau'r Pasg, a'r ŵy
yn ganolbwynt y dathlu. Rhaid felly yw chwilio a chreu rysetiau sy'n
defnyddio wyau, a'u cynnwys yn yr addurn.

Hyfryd yw cael rhannu rhai o'm ffefrynnau i chi i'w paratoi, ac i'w
rhannu gyda'ch teulu chithau.

Hwyl, - a Phasg hapus i bawb.

Gareth

Potiau Brecwast y Pasg

2 sleisen o ham	ychydig o ddail sbigoglys
8 tomato ceirios	4 ŵy
75g o gaws wedi gratio	2 llwy fwrdd o crème fraiche

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C / 160 C ffan
2. Torrwch yr ham a'r sbigoglys yn fân a rhannwch rhwng 4 pot ramekin
wedi'u iro.
3. Torrwch yr wyau i'r potiau, a rhannwch y crème fraiche a'r caws
drostynt, ac ychydig o bupur du.
4. Gosodwch ar dun pobi a rhowch yn y ffwrn am 15 – 18 munud.
5. Gweinwch gyda thost.

Pwdin Pasg lemwn

100g o friwson bara	400 ml llaeth
Ychydig o fenyn	25g siwgrwr mân
2 ŵy wedi gwahanu	100g o siwgrwr mân i'r meringue
4 llwy fwrdd o geuled lemwn	

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180C / 160 C ffan. Cynheswch y llaeth, menyn
a'r 25 g siwgrwr mewn sosban, ac arllwyswch dros y briwson bara.
Ychwanegwch y melynŵy.
2. Rhannwch rhwng 4 pot bach gwydr, a phobwch am 20 munud.
3. Curwch y gwynŵy ac ychwanegwch y siwgrwr yn raddol i greu
meringue.
4. Rhannwch y ceuled lemwn rhwng y potiau a pheipiwch y meringue
drosodd.
5. Rhowch yn ôl yn y ffwrn am 6-8 munud nes yn euraidd.

Pwdin siocled hudol y Pasg

Cacen	Saws
150 g menyn	25g coco
3 ŵy	4 llwy fwrdd dŵr berw
150g siwgrwr mân	85g siwgrwr mân
100g blawd codi	3 llwy fwrdd llaeth
25g coco	
1 llwy de powdwr codi	
50g cnau coco melys	
85g siocled wedi ei dorri'n fân, a 'mini eggs' i addurno.	

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180C / 160 ffan. Irwch ddysgl 3 pheint.
2. Gosodwch gynhwysion y cacen mewn powlen a churwch â pheiriant
llaw nes ei fod yn hufenog. Gwasgarwch ar waelod y ddysgl.
3. I wneud y saws: Cymysgwch y coco a'r dŵr, ac ychwanegwch y siwgrwr
a'r llaeth. Arllwyswch dros y cacen a phobwch am 40 - 45 munud.
(Wedi dod o'r ffwrn, bydd y cacen siocled wedi dod i'r wyneb a phwll o
saws ar y gwaelod).
4. Sgeintiwch â siwgrwr eisin, a gwrthiwrch yr wyau siocled dros wyneb y
gacen fel addurn.
5. Gweinwch â hufen.

Hamper y Pasg

Beth am Hamper i'w roi fel anrheg dros y Pasg,
neu i chi i'w fwynhau fel teulu.

Cynnwys:

Cacen Pasg wedi addurno	Pot o marmalêd	Jam
Cordial blodau'r 'Sgawen	Bisgedi brau	Tsiytni
Pice ar y maen	Cacennau nyth siocled	

Pris £20

I archebu - ffoniwch Gareth 01570 422313.

Mae wedi bod yn fis prysur iawn yn Theatr Felinfach yn ystod mis Mawrth gan gychwyn gyda Gŵyl Offerynnol Rhanbarth Ceredigion mewn cydweithrediad ag Urdd Gobaith Cymru a Chyngor Sir Ceredigion. Diwrnod llawn dop o gystadlu brwd a safonol.

Ar nos Wener, 3ydd Mawrth cafwyd perfformiad gan Y Ladis, sef Mair Tomos Ifans, Carys Huw a Nia Medi. Yr unig ffordd i'w defnyddio oedd 'wacky'! Cafwyd lot fawr o chwerthin a llwyddwyd i roi gwedd newydd a hollol amgen i'r Ladi draddodiadol Gymreig.

Cynhaliwyd Cyngerdd Pigion cystadleuaeth Clybiau Ffermwyr Ifanc Cynulleidfa gyda gan Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog ar Nos Lun, 6ed Mawrth. Cafwyd adloniant hefyd gan glybiau Pontsiân a Llanllwni. Roedd y Theatr dan ei sang a phawb wedi mwynhau'r arlwy. Yna ar Ddydd Mercher, 8fed Mawrth cynhaliwyd Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru, Cylch Aeron. Unwaith yn rhagor cafwyd cystadlu safonol a'r pegynau arferol o emosiynau; gorfoledd, siom ac ambell syrpreis. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cymeryd rhan.

Ar Nos Fercher y 15fed o Fawrth, cafwyd perfformiad o 'Yfory' gan Gwmni Theatr Bara Caws. Roedd cryn ddisgwyd wedi bod am y ddrama hon ac roedd hi wedi cael adolygiadau gwych. Ni chawsom ein siomi ac roedd cynulleidfa gref yma i'w gwerthfawrogi. Dyma oedd y cynhyrchiad cyntaf sy'n rhan o ddatblygiadau penblwydd arbennig Bara Caws yn 40 oed eleni.

Nos Wener, 24ain Mawrth roedd cwmni Its An Act yma ar ei hail ymweliad â Theatr Felinfach yn cyflwyno comedi Jon Godber 'Perfect Pitch'. Er mai cynulledifa fechan oedd yma, roeddent i gyd yn gwerthfawrogi ac yn medru uniaethu gyda'r problemau a'r helyntion a ddaw yn sgîl carafanio, yn enwedig pan yn hollol newydd iddi fel petai! Unwaith eto, cafwyd llawer iawn o chwerthin iach.

Nos Fawrth, 28ain o Fawrth tro Cwmni Theatr Arad Goch oedd hi i gyflwyno Y Glec (King Hit).

Prosiect Perfformio Cwmni Dawns Ieuencid Ceredigion

Dros yr wythnosau diwethaf, mae criw o bobl ifanc wedi bod yn cwrdd yn wythnosol gyda Lowri Briddon, Swyddog Creadigol (Dawns/Theatr) i ddatblygu amrywiol arddulliau o ddawns a choreograffi. Bydd penllanw'r gwaith creadigol hyn yn cael ei ddangos mewn perfformiad yn Theatr Felinfach ar Nos Sadwrn, 15fed Ebrill am 6:30yh.

Yn rhan o'r noson ceir perfformiad gan gyn aelod o CDIC - Cwmni Dawns Ieuencid Ceredigion, Meilir Ioan. Yn 7 oed, ymunodd Meilir, sydd nawr yn 21 oed gyda'r ysgol ddawns leol, a dyna phryd ddechreuodd ei angerdd tuag at ddawnsio! Mae Meilir bellach wedi dewis dawns fel gyrfa broffesiynol. Astudiodd gwrs israddedig yn 'Trinity Laban Conservatoire', Llundain, cyn symud ymlaen i wneud cwrs M.A. mewn Perfformio Dawns eleni. Fel rhan o'i gwrs M.A., mae Meilir hefyd yn rhan o Gwmni Dawns 'Transitions'. Braf iawn yw cael y cyfle i'w groesawu nôl i berfformio ar lwyfan Theatr Felinfach lle y mae fel nifer o'i flaen wedi treulio llawer o amser ar draws y blynyddoedd a chychwyn ar ei grefft sydd nawr yn fywoliaeth iddo.

Hwyl a Hamdden

15fed Chwefror - Daeth Nicola Thomas a Karen Roberts i siarad am Ddiogelwch Tân yn y Cartref. 1af Mawrth - Dydd Gŵyl Ddewi - Adloniant gan blant Ysgol Felinfach, Paned a Pice Bach. 15fed Mawrth - Cawl yn Nhafarn Dyffryn Aeron gyda Daniel Powell a'r Staff - blasus tu hwnt. 22ain Mawrth - Chwist dan ofal Jean Evans, Goedwig, Ciliau Aeron.

Sesiwn gymdeithasol i rai dros 50 oed yw sesiynau Hwyl a Hamdden. Mae'r grŵp yn cwrdd bob prynhawn Mercher rhwng 1:30 a 3:00yp ac mae'r sesiwn yn amrywio o wythnos i wythnos fel y gwelwch uchod, yn cynnwys siaradwyr, teithiau ac adloniant ysgafn. Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Penwythnos Cer i Greu

Ar 7-9 Ebrill 2017 bydd BBC Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a What Next? yn eich gwahodd i ddathlu creadigrwydd ym mhob cwr o Gymru. Byddant yn hyrwyddo Cymru fel gwlad sy'n mwynhau celfyddyd a diwylliant a gwlad sy'n caru creadigrwydd. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan <https://cerigreucymru>

Amserlen Gweithgareddau

Dramatic! Clwb drama i ddisgyblion 7-11oed - 4:00yp - 5:00yp

Nos Lun - Ysgol T Llew Jones

Nos Fawrth - Ysgol Henry Richard (Campws Uwchradd)

Nos Fercher - Y Gwndwn, Theatr Felinfach

Mae'r clybiau Dramatic yn brysur yn creu sioe a fydd yn cyd fynd gyda thema Llywodraeth Cymru eleni, sef Blwyddyn Chwedlau. Dyddiad y perfformiad yw 29ain Mehefin.

Cynllunio a Sgriptio Panto

Oes diddordeb 'da chi mewn cyfrannu a datblygu stori newydd gyffrous, creu cymeriadau a chynllunio sgript?

Mae'r criw cynllunio a sgriptio yn awyddus i gael aelodau newydd, felly os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Ffion Medi.

Beth Sy' 'Mlaen yn y Theatr?

07-08/4/17 - Sioe gan fyfyrwyr Ysgol Ddawns Sally Saunders - £7/£6/£5 6:30yh

13/04/17 - Sioe un dyn Stifyn Parri Cau dy Geg! - Casgliad doniol a drygionus o hanesion bywyd showbiz; clecs cefn llwyfan, y West End, sêr Hollywood, y teulu brenhinol a llawer mwy... - £10/£9/£8 7:30yh

08/04/17 - Bore o weithgareddau amrywiol yn rhan o benwythnos Cer i Greu - AM DDIM 10:00yb - 12:00yp

15/04/17 - Prosiect Perfformio Cwmni Dawns Ceredigion - £6/£5/£4 6:30yh

28/04/17 - Hwyl hael Jacob, Y dwli a'r digri - Noson i ddathlu gwaith ysgafn D Jacob Davies gyda

Chwmni Actorion Felinfach, Bois y Gilfach a Dewi Pws - £8/£7/6 7:30yh

Manylion Cyswllt: Swyddfa Docynnau - 01570 470697

www.theatrfelinfach.cymru

Facebook /TheatrFelinfach

Twitter @TheatrFelinfach

Rhian Dafydd

Rheolwr Busnes a Marchnata

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologfn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- * Datrys Problemau a Trwsio
- * Ymweliadau Cartref
- * Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- * Pherifferolion Ar Werth
- * Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907

Drefach, SA40 9SX



dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Llanybydder

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar



Cynhaliwyd Arwerthiant Flynyddol Aberduar, Nos Fercher, 15eg Mawrth 2017. Daeth llond y Ffestri ynghyd i gymdeithasu ac i gefnogi'r noson a brofodd i fod fel arfer yn achlysur llwyddiannus dros ben.

Llywyddwyd y gweithgareddau gan ein gweinidog, Y Parch Jill Tomos gan groesawu pawb yn gynnes iawn i noson sydd wedi hen sefydlu ei hun ar galendr yr eglwys.

Agorwyd y noson yn swyddogol eleni gan Rhian Davies, Hafan Glyd, Banc y Ffordd, Llandysul – [roedd Rhian yn wyres i'r diweddar, Edwin a Menna, Brynderw, Parcyrhos gynt], fel mae rhai yn adnabod y teulu yn yr ardal.

Mae Rhian yn athrawes yn Ysgol y Ddwylan, Castell Newydd Emlyn yn y Dosbarth Meithrin, ac yn dal i fod yn Bennaeth Cynorthwyol a gofal y Cyfnod Sylfaen.

Yn ei hanerchiad, cyfeiriodd bod yr Arwerthiant yn dod nôl ac atgofion melys o'i phlentyndod ers yn blentyn. Roedd 'Arwerthiant Aberduar yn highlight' achos doedd dim gwell na cael paned o dê, clonc gyda ffrindiau, a'r Bunloaf ffein.

Soniodd hefyd bod cysylltiad teuluol rhwng Brynderw ac Aberduar mor gryf dros sawl cenhedlaeth a bod atgofion diri o Anti Lil Capel stŵr yn mynd a hi a'i brawd Emyr yn y car i'r ysgol Sul.

Diolch i Rhian am ei rhodd hael, ac i bawb am gydweithio, gyda'r trefniadau i sicrhau llwyddiant y noson.

Fel arwydd o werthfawrogiad cyflwynodd y Parch Jill Tomos, based o

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â theulu George Evans, 19 Heol-y-Gaer o golli ewythr ac hen ewythr yn ystod mis Chwefror.

Aberduar

Mae Aberduar yn paratoi i ddathlu penblwydd 275 oed, ar 17 Medi 2017. Fel rhan o'r dathliadau, bydd te i bawb ar ôl Oedfa'r Dathlu. Bydd tipyn o waith trefnu'r bwyd ac felly fe fydd cyfarfod i ddechrau arni yn cael ei gynnal mewn da bryd ar 15 Mehefin 2017, am 6.30 y.h yn festri Aberduar. Bydd diwrnod y dathlu yn ddiwrnod mawr i ni yn Aberduar, ac mae angen help pawb o aelodau ac o garedigion yr achos – os ydych o fewn cyrraedd, a diddordeb gennych, bydd hi'n dda iawn gennym eich gweld yn y cyfarfod hwn.

Pwyllgor Pentref

Fydd pwyllgor pentref yn cynnal noson i ddewis brenhines, morwynion, Gwas bach a morwyn fach erbyn y carnifal ar y 7fed o Ebrill yn y clwb rygbi am 6.30. Mae pwyllgor y pentref yn cynnal diwrnod "It's a knockout" ar y 28 o Mai lawr yn y cae rygbi am 1.00 o'r gloch. Fydd adloniant yn y Llew du i'w ddilyn. Fydd hanner yr arian yn

mynd i'r Cylch meithrin a Chanolfan deulu Llanybydder a'r hanner arall yn mynd at brynu byrddau picic i'r parc. Pwyllgor y pentref sydd yn trefnu y diwrnod.

Diolch

Dymuna Heather Jones, 7 Bro Einon ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl cael llawdriniaeth ar ei phenglin yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu y diweddar George Evans ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a'r caredigrwydd a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch o galon.

Priodas

Pob lwc i Llŷr a Tracy sy'n priodi ar ddydd Gwener y Groglieth. Pob dymuniad da i chi.

Eglwys San Pedr

Cydymdeimlad: Estynnir cydymdeimlad dwys â theulu Mr Edgar Davies, aelod o'r Eglwys a fu farw'n ddiweddar.

Clwb 100: Enillwyr Mis Mawrth: Gareth Jones Rhif 24 (£15); Gwyneth Williams Rhif 39, (£10);

Eric Jones Rhif 93 (£5).

Gwasanaeth y Gair Dydd Sul 12fed o Fawrth: Thema'r gwasanaeth yn seiliedig ar ein hanifeiliad anwes ac ar Bennod 12 Adnod 10 Diarhebion, "Y mae'r cyfiawn yn gofalu am eu hanifeiliaid"

Ffoniodd Mr Jones y gwesty lle roedd am fynd ar ei wyliau a gofyn, "A allaf ddod â'm ci Gwyn hefyd i aros yn y gwesty? Mae'n ymddwyn yn arbennig o dda". Atebodd perchennog y gwesty, "Rwyf wedi bod yn rhedeg y gwesty yma am 30 mlynedd ac yn yr holl amser yna nid oes unrhyw gi wedi dwyn tywelion, dillad gwely, llestri arian neu luniau oddi ar y wal. Nid wyf erioed wedi gorfod troi allan ci ynghanol y nos am ei fod yn feddw ac afreolus a dydw i erioed wedi cael un yn rhedeg allan heb dalu. Oes, mae croeso i'ch ci ac ar ben hynny os all Gwyn roi geirda amdanoch y mae croeso i chi hefyd".

Y mae Solomon yn ysgrifennu, "Mae'r cyfiawn yn gofalu am eu hanifeiliaid". "Mae pob rhodd dda yn dodd oddi uchod ...disgyn y maent oddi wrth y Tad". (Iago 1:17). Cysurir llawer calon sy'n galaru gan anifail anwes; y mae ei gariad a'i ffyddlondeb yn gwneud y golled yn haws i ddiodeff ac yn eu helpu'r person i symud ymlaen. Mae pobl ag anifeiliaid anwes yn byw yn hirach, yn aros yn iachach, gwella ynghynt ac yn profi llai o iselder. Pwy all anghofio'r cŵn ar 9/11 wrth iddynt chwilio drwy gelanedd Canolfan Masnach y Byd, ac yn nadu mewn cyfyngder oherwydd nid

oeddent yn gallu achub y rhai a fu farw? A beth am y cŵn medrus sy'n rhoi golwg i'r deillion a'r rhai sydd â nam golwg?

Rhoddwyd hanes San Ffransis o Assisi, Nawddsant Anifeiliaid a'i Weddi adnybyddus, "Iôr gwna fi'n offeryn dy heddd..".

Cyfeiriwyd at y gath enwog sef Bob o'r llyfr a'r ffilm "A Street Cat named Bob" cath a helpodd bachgen ar gyffuriau ar strydoedd Llundain i droi dalen newydd. A phwy all anghofio am y ci dewr a ffyddlonaf a fu erioed sef Gelert?

I gloi, soniwyd am y rhinweddau y mae ein hanifeiliad anwes yn rhannu â ni a'r rhinweddau y dylem ymdrechu i arddangos fel Cristnogion:

Teyrngarwch; Cariad di-amod; Amynedd; Cysur; Cwmniaeth; Llawenydd; Gostyngeddwrwydd; Yn gyflym i faddau; Yn Derbynu eu hunain; yn Barod i wrando;

Byw yn y foment ac nid yn y gorffennol na'r dyfodol & Yn mwynhau'r daith (bywyd).



Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymdeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ **01239 613746**

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau
- Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd
- Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Shwmae wrth Gwenan a Caryl, Aelod Hŷn ac Iau newydd CFfl Ceredigion. Ein dyletswydd ni yw eich diweddarau chi ar holl ddiwyddiadau'r mudiad yn ystod y flwyddyn brysus sydd i ddod. Diolch o galon i Angela a Carwyn am eich gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

Edrychwn ymlaen at adrodd holl hanes, bwrlwm a chystadlu'r mudiad i chi yn ystod y flwyddyn nesaf.



Dyma lun o Caryl Morris, Llanddeiniol, Aelod Iau'r Sir a Gwenan Davies, Mydroilyn, Aelod Hŷn y Sir.

'Cynulleidfa Gyda...'

Bu cystadlu brwd yn Theatr Felinfach yn ystod Hanner Tymor, wrth i 16 clwb a dros 400 o aelodau gamu i'r llwyfan i gyflwyno 'Cynulleidfa Gyda...'. Beirniad eleni oedd Cefin Vaughan o Sir Benfro, a diolch yn fawr iawn iddo am ei waith diflino yn ystod yr wythnos.

Yn dod i'r brig eleni oedd Talybont, Felinfach yn 2il a'n cyrraedd y 3ydd safle oedd Llanddewi Brefi. Gobeithio'n fawr bod pawb wedi medru manteisio ar amryw nosweithiau llawen yn dilyn y gystadleuaeth wrth i nifer fawr o glybiau wahodd ei gilydd, rhai o siroedd arall hefyd, i ddiddanu eu cymunedau.

Dyma weddill y canlyniadau:

Yn rhannu Tarian Mr a Mrs Alwyn Evans am yr actor gorau o dan 16 oedd y ddau frawd Bleddyn ac Owain Thomas, Felinfach. Enillydd Cwpan Teulu Pantyrodyn am yr actores orau o dan 16 oedd Alaw Jones o Glwb Felinfach. Dewi Jenkins o Glwb Talybont cipiodd Cwpan Coffa Dafydd Elgan Lewis, Penparc am yr actor gorau Dan 26 ac Elen Davies o Droedysraur a dderbyniodd Cwpan Helen Phillips, Llanwenog am yr actores orau o dan 26. Llongyfarchiadau i chi'ch pedwar. Clwb Talybont a dderbyniodd Cwpan Mr a Mrs Lyn Evans, Bryngwyn am y Cynhyrchydd Gorau. Cipiodd Llanddewi Brefi cwpan Cwmni Da am y Sgript Orau. Pontsian enillodd Gwpan Theatr Felinfach am y Perfformiad Technegol Gorau.

Braf oedd gweld Theatr Felinfach yn orlawn bob nos a llongyfarchiadau i bob clwb am eu perfformiadau graenus.

Penwythnos Adloniant CFfl Cymru

Teithiodd bws o aelodau brwd CFfl Talybont ynghyd â chyd-aelodau a chefnogwyr y Sir i Bort Talbot ar gyfer penwythnos Adloniant CFfl Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i Glwb Talybont ar gipio'r wobr gyntaf mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn ac i Dewi Jenkins am gyrraedd y brig fel Perfformiwr Gorau Dan 26.

Llongyfarchiadau hefyd i Caryl a Gwenan am gynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Aelod Hŷn ac Iau Cymru.

Swyddogion Newydd

Dewiswyd swyddogion newydd y Sir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn Nawns Dewis Swyddogion yn ddiweddar yn Llanina. Cafwyd adloniant eto eleni gan Tom Collins Band a braf oedd gweld Llanina yn llawn aelodau'n mwynhau a chymdeithasu!

Brenhines y Sir am eleni yw Esyllt Ellis Jones o Glwb Llangwryfon a'r Ffermwr Ifanc yw Morys Ioan o Glwb Caerwedros. Y dirprwyon yw Elin Haf Jones o glwb Llanwenog, Steffan Nutting o glwb Talybont, Angela Evans o glwb Tregaron ac Aled Davies o glwb Caerwedros. Wrth gwrs, dyna ni fel mudiad wedi creu hanes, a chroesawu ein dirprwyon gwrywaidd cyntaf. Llongyfarchiadau gwresog i'r 6 ohonoch. Edrychwn ymlaen at gydweithio a joio gyda chi yn ystod y flwyddyn! Dyma lun o'r criw llwyddiannus!

Gymanfa'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc

Braf iawn oedd gweld Capel Mydroilyn dang ei sang ar gyfer Gymanfa'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc. Roedd 'na ganu ffantastig i'w glywed gyda nifer fawr o aelodau o bob oed yn cymryd at y pulpud i arwain emyn yr un - profiad gwerth chweil i bob un ohonynt. Codwyd swm sylweddol o £1000 tuag at elusen RABI Cymru.

Dyddiadau i'ch dyddiadur:

- | | |
|------------------------------|--|
| Nos Fercher 5 Ebrill: | Hyfforddiant Barnu Stoc |
| Nos Wener 7 Ebrill: | Gala Nofio'r Sir, Pwll Nofio Aberaeron |
| Dydd Sadwrn 8 Ebrill: | Taith Feicio Noddedig 75 |
| Nos Sadwrn 8 Ebrill: | Rasus Defaid, Clwb Rygbi Aberaeron |
| Nos Fercher 12 Ebrill: | Hyfforddiant Barnu Stoc |
| Dydd Sul 16 Ebrill: | Sul Hwylus y Pasg |
| Nos Fercher 19 Ebrill: | Pwyllgorau'r Sir |
| Penwythnos y 21 – 24 Ebrill: | CCB FfCCFf, Tourquay |
| Dydd Sadwrn 29 Ebrill: | Diwrnod Maes CFfl Cymru, Ynys Môn |

Canlyniadau Clwb 200:

Chwefror

1. Arwyn a Heledd Williams, Llys y Gân, Derwen Gam, Llanarth
2. Eryl Jones, Station Terrace, Llanybydder
3. Dewi a Non Williams, Rhandir Uchaf, Llangwryfon

Mawrth

1. Ann Jones, d/o Maesronw, Bangor Teifi, Llandysul
2. Arwyn a Heledd Williams, Llys y Gân, Derwen Gam, Llanarth
3. John a Mary Jones, Penrheol, Cwmsychpant, Llanybydder



Rhifyn Mai
yn y Siopau
4 Mai

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
24 Ebrill

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035

✉mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed

Teifi

Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies

01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensio

a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XB

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Cancer Research UK

Te Prynhawn

Yn y Pantri, Llanbed

Mercher 17 Mai 2017

2.00yp

Mynediad trwy rodd

Llywydd:

Gwen Jones,
Llanybydder.

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Pwy fydd yma mewn deugain mlynedd?

Mae yna ddyweddiad yn y Gogledd ... mae pob newid yn change ... ac am wahanol resymau, dw innau wedi bod yn meddwl am y busnes newid yma.

Y flwyddyn nesa' mi fydda' i wedi bod yn newyddiadurwr proffesiynol ers deugain mlynedd ac mae'r newid yn y cyfnod hwnnw yn fy maes i yn rhyfeddol.

Pan o'n i'n dechrau, doedd yna ddim cyfrifiaduron personol ar ben desg, dim ond teipreitors mawr swnllyd a darnau o bapur sgrap.

Y flwyddyn nesa' hefyd, mi fydd Golwg yn dathlu 30 mlynedd o gyhoeddi - o Lanbed, wrth gwrs - ac ar y pryd, doedd y We fyd-eang, sy'n rheoli ein bywydau ni erbyn hyn, ddim hyd yn oed yn syniad. Y flwyddyn wedyn y dechreuodd hwnnw ar raddfa fechan iawn.

Mae gen i go' o ddod ar draws peiriant ffacs am y tro cynta' ac, yn y cyfnod hwnnw, byrddau du a sgrifennu gwyn oedd mewn ysgolion, nid byrddau gwyn a sgrifennu du ...

Mae'n hawdd rhyfeddu a dotio wrth edrych yn ôl ond y broblem fawr ydi trio dychmygu ymlaen. Pan fydd darn o dechnoleg newydd yn dod, y gamp ydi deall sut y mae modd defnyddio'r dechnoleg yna, mewn ffordd cwbl newydd.

Yn aml iawn, mae awduron nofelau'n gallu rhagweld yn well na gwyddonwyr. O feddwl am ein hardal ni, roedd Islwyn Ffowc Elis yn ei nofel Cymru Fydd wedi proffwydo peiriant tebyg iawn i'r peiriant ffacs, yn ôl yn y 50au.

Ond beth am i ni drïo proffwydo eto, beth fydd wedi newid ymhen rhyw ddeugain mlynedd arall. A fydd gynnwys ni i gyd gamera ar ein dillad, a fyddwn ni'n gallu trosglwyddo ein meddyliau i'n gilydd heb orfod yngan gair?

Neu tybed sut fyddwn ni'n symud o le i le? Yn ystod y blynyddoedd nesa', ryden ni hyd yn oed yng nghefn gwlad yn debyg o weld ceir heb yrwyr yn symud o amgylch y lle. A thrydan fydd y rheiny yn y diwedd.

Un peth ydi dweud 'car heb yrwr', peth arall ydi dechrau meddwl am yr holl oblygiadau. Sut fath o ffyrdd fydd eu heisiau wedyn?

Y ddadl ydi y bydd ceir heb yrwyr yn y pen draw'n llawer saffach. Mi fydd technoleg lloeren yn eu rhwystro nhw rhag gyrru'n rhy gyflym ac mi fyddan nhw'n synhwyro pan fydd rhywbeth yn agos.

Ond a fydd ceir heb yrwyr yn gallu pasio'i gilydd? A fydd tafarnau cefn gwlad yn agor eto am fod pobol yn gallu dod yn eu ceir heb boeni am yfed a gyrru? A fydd yna bwynt ymgyrchu i gael rheilffordd newydd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin os bydd ceir yn gweithredu fwy neu lai fel trenau bach unigol?

Mi allai newid fel yna chwyldroi patrwm ein bywydau ni, yn union fel y gwnaeth y trên i Geredigion, rhyw 150 o flynyddoedd yn ôl. Dim ond 150 o flynyddoedd yn ôl. Mae siâp tref fel Llanbed yn wahanol heddiw oherwydd y rheilffordd a'r trên a drodd rywle fel Aberystwyth yn ganolfan wyliau.

Yr un pryd, mae'n bosib y bydd llai o lorïau. Os ydi rhai pobol yn gywir, drôns - awyrennau heb beilot - fydd yn delifro llawer o nwyddau o le i le. Sut fydd busnesau bach ardal fel Llanbed yn gallu cystadlu wedyn?

Ond efallai y byddwn ni i gyd wedi cael llond bol ar yr holl dechnoleg ddi-wyneb yma. Efallai y byddwn ni'n gweld gwerth mewn cwrdd wyneb yn wyneb a siarad, yn hytrach na byw ein bywydau trwy gyfrwng peiriannau bach.

Tybed a fydd pobol yn darllen papur bro ... y tebygrwydd ydi y bydd pob newyddion yn cael eu derbyn ar bethau symudol, yn ffons a thabledi a beth bynnag arall fydd wedi datblygu erbyn hynny, ond efallai y bydd rhai pethau'n parhau'n fwy deniadol ar bapur traddodiadol. Ond, wrth gwrs, erbyn hynny, os ydi'r Llywodraeth yn cadw'u haddewid, mi fydd yna filiwn o bobol Cymru'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

Nawr, dyna beth anodd ei ddychmygu.

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	1			6		9	4
			5	2			1
		7			6		
6		8		1			3
			8	9	7		
7				5		1	9
		1				9	
9				6	5		
8	2		9				5

Swdocw Mawrth:

I Llongyfarchiadau i
I un o gystadleuwyr
I selog Swdocw
I Clonc sef **Eurwyn
Davies, Heol-y-
Gaer, Llanybydder**
I am ennill y tro hwn
I a diolch i bawb
I arall am gystadlu:
I Bethan Williams,
I Neuadd Fryn,
I Llanybydder; Hugh
I Evans, Coedparc,
I Llanybydder ac Elma
I Phillips, Llys Gwyn, Cellan.

9	7	2	8	5	1	4	3	6
4	8	5	3	6	7	9	1	2
6	1	3	2	4	9	7	5	8
8	4	1	9	3	6	5	2	7
5	6	7	1	2	8	3	9	4
3	2	9	4	7	5	6	8	1
1	5	4	6	8	3	2	7	9
2	3	8	7	9	4	1	6	5
7	9	6	5	1	2	8	4	3

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Mae'r Pasg ar drothwy'r drws a dyma ni yn dod at derfyn tymor arall ym mywyd Ysgol Cwrtnewydd.



Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn ein ffordd draddodiadol o wisgo y wisg Gymreig. Cyhoeddwyd taw Elan Jenkins yw cymwynas-wraig y flwyddyn [gweler llun o Elan ar y chwith]. Hefyd cynhaliwyd cystadlaethau llawysgrifen ac arlunio a chyhoeddwyd yr enillwyr. Diolch i Ella Davies, Waun am feirniadu'r cystadlaethau.

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr drwy wisgo mewn cymeriad allan o stori Gymreig a chafwyd gweithgareddau i gyd-fynd gyda'r diwrnod.

Mae plant blwyddyn pedwar y dair ysgol wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda'r Bardd Ceri Wyn i greu cerdd dan nawdd grant ysgol arweiniol creadigol. Dyma brofiad mae'r plant yn ei drysori!

Cynhaliwyd pwyllgor i drafod dathlu addysg yn Ysgol Cwrtnewydd a braf oedd gweld nifer yn bresennol.

Byddwn yn cynnal diwrnod o ddathlu yn yr Ysgol ar Ddydd Sul, Gorffennaf 16eg. Cadwch lygaid allan am ragor o fanylion.

Ar ddydd Iau, Mawrth 16eg cynhaliwyd Eisteddfod Urdd cylch Llanbed.

Dyma'r canlyniadau:-

1af - Parti Unsain; 2il - Parti Llefary; 3il - Ymgom.

Aeth plant Cyfnod Sylfaen y dair ysgol am drip i Gastell Aberteifi.

Cafwyd diwrnod ffantastig yn edrych o gwmpas y castell ac yn gwrando ar yr hanesion. Roedd gweld yr holl blant yn cymdeithasu ac yn mwynhau cwmni ei gilydd yn fendigedig!

Braf oedd cael croesawu Henoed Plwyf Llanwenog i'n plith. Bu'r plant wrthi yn diddanu'r henoed gydag eitemau gwahanol. Diolch iddynt am y lluniaeth a gafodd y plant a'r staff.

Braf oedd croesawu Aron Jac a Rhodri i'n plith am rai diwrnodau o bontio. Edrychwn ymlaen i gael eu cwmni ar ôl gwyliau'r Pasg.

Cofiwch am ein gweithgareddau Calan Mai blynyddol a fydd yn cael eu cynnal ar Fai 1af yn yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Priodas Aur

Dathlodd Alun a Jean Davies, Werndeg ei Priodas Aur yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant mawr i Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i ti pan fyddi yn cystadlu mewn tair cystadleuaeth unigol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhen-y-bont ar ddiwedd mis Mai. *Gweler llun ar dudalen 16.*

Diolch

Dymuna Alun a Jean Davies, Werndeg, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion, a phob dymuniad da a dderbyniasant ar adeg eu Priodas Aur ddiwedd mis Mawrth. Diolch yn fawr.



Canlyniadau'r plant

Cynhaliwyd ras olaf Cynghrair Gwent mewn lleoliad newydd ym mharc gwledig Pen-bre ar ddydd Sadwrn, Mawrth 4ydd gyda 3 aelod o'r clwb yn cystadlu. Roedd y tywydd yn ffafriol wrth i'r rhedwyr redeg ar draws y twyni tywod gyda Rhys Williams a Rhodri Gregson yn rhedeg ras dda i'r bechgyn cynradd. Rhys yn gorffen yn 22ain a Rhodri yn safle 53. Roedd Tomos Morgans, sy'n 15 oed gyda'r ifanca i redeg yn y ras i fechgyn dan 17oed ac felly roedd yn hapus iawn i orffen yn safle 17. Gyda Rhys Williams wedi cystadlu ym mhob un o'r 5 ras yn y gynghrair, fe lwyddodd i orffen yn yr unfed safle ar ddeg a hynny mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn, felly llongyfarchiadau.


Ar Fawrth y 12fed, cynhaliwyd Ras gŵyl Dewi yn Llanddewi Brefi gyda sawl ras amrywiol i'r plant. Tomos Green oedd unig gynrychiolydd y clwb i blant dan 9 oed yn y ras 2k; yn y ras 3k i rai dan 11 oed daeth Rhys Williams yn 1af, Cai Allen yn 2il a Harri Rivers yn 4ydd, ac yn ras y merched daeth Beca Jones yn 3ydd a Nia Williams yn 4ydd. Daeth Jamie Jones yn 2il yn y ras 4k i rai dan 13 a Sean Wood yn 4ydd, ac yna rheddodd Ben Davies y ras 5k i rai dan 15 oed gan orffen mewn 22.39.

Llwyddiannau Richard Marks yn parhau

Teithiodd Richard i Lundain ar Chwefror 26ain i gymeryd rhan yng nghystadleuaeth y meistri gan gynrychioli ei wlad mewn tair cystadleuaeth ar y trac a hynny yng nghategori y dynion dros 60. Ymysg cystadleuwyr brwd drwy Brydain, fe lwyddodd Marks i orffen yn 3ydd yn y 1500 metr mewn 5 munud 13 eiliad, yna daeth yn 2il yn yr 800 metr mewn 2 funud 34 eiliad ac yn 2il hefyd yn y 3000 metr mewn 11 munud 4 eiliad. Nid rhedeg yw unig dalent Richard oherwydd yn ddiweddar fe gyrrhaeddodd rownd derfynol Cân i Gymru ar S4C gyda'i gân "Gelyn y Bobl". Ymfalchiwn yn ei lwyddiant.

Canlyniadau eraill

Ar Ddydd Sadwrn, Chwefror 27ain, gyda Storom Doris yn dal i ddangos ei dannedd, fe fentrodd 4 o aelodau'r clwb i arfordir Sir Benfro i redeg hanner marathon Ras Dewi Sant. Er gwaetha'r gwynt cryf cafodd Mark Rivers ras dda wrth iddo orffen yn 14eg yn y ras mewn 1 awr 46 gyda'i wraig Eleri yn gorffen fel yr wythfed ferch mewn 2 awr 4 munud. Fe enillodd Dawn Kenwright y ras i fenywod dros 60 mewn 2 awr 12 munud ac Aneurin James yn gorffen yn gryf mewn 2 awr 17 munud.



Roedd Dydd Sadwrn y 4ydd o Fawrth yn ddiwrnod prysur iawn yng nghalendwr rhedeg Sarn Helen gyda'n haelodau yn mynychu tair ras gwahanol ar draws Cymru. Cafodd ras heriol iawn ei chynnal yn nhref Dolgarrog yng Ngogledd Cymru sef y "Pipe Dream"; Ras sy'n dilyn 5 milltir o bibellau trydanddwr i fyny dringfa o 1,700 o droedfeddi! Dau o'n haelodau ni, Felipe Jones a Sion Price ddaeth i'r brig yn y ras hon gyda Felipe yn gorffen mewn 35.21 a Sion mewn 37.12.



Ar yr un diwrnod ym mharc gwledig Pen-bre, daeth Gareth Payne i'r brig am yr ail flwyddyn yn olynol mewn duathlon a oedd yn cynnwys rhedeg 8km, beicio 25km ac yna gorffen drwy redeg 4km a hynny mewn amser o 1.57.07. Y trydydd digwyddiad am y diwrnod oedd ras 20 milltir o amgylch llyn Rhaeadr gyda Carwyn Davies yn rhedeg mewn amser o 2.19.05 a oedd yn ei osod yn 12fed dyn agored, Nigel Davies yn gorffen mewn 2.27.25 yn 6ed dyn dros 45 a Caryl Wyn Davies yn llwyddo i orffen 6 munud yn gynt na'i amser gorau mewn 2.43.48 ac yn ei gosod yn 5ed merch agored. Y penwythnos

canlynol ar Fawrth y 12fed, gwelwyd Caryl Wyn Davies a Carwyn Davies yn parhau â'u llwyddiannau yn Hanner Marathon Llanelli wrth i Caryl redeg ei amser gorau unwaith eto a hynny mewn 1.36.38 gan orffen yn 15fed merch a 7fed yn ei chategori o ferched agored, a Carwyn yn redeg mewn amser o 1.23 a'i osododd yn 14eg dynion agored. Mae'r amserau yma yn edrych yn addawol i'r ddau ac hwythau ar fin rhedeg marathon ym mis Ebrill. Rhywun arall sy'n paratoi ar gyfer rhedeg marathon Llundain yw Emma Gray, dyma bydd ei marathon cyntaf a hynny ar ddiwrnod ei phenblwydd yn ddeugain oed. Pa ffordd well i



ddathlu? Bu Emma yn rhedeg hanner marathon Llanelli fel rhan o'i pharatoadau ac fe groesodd hi'r llinell mewn 2.28.41, gyda Mitchell Readwin yn rhedeg ras dda mewn 1.44.38.

Yn agosach i adre ar yr un diwrnod, cynhaliwyd Ras Gŵyl Dewi a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 10 oed, ac eleni cynhaliwyd ras 5k newydd yn ogystal â'r ras 10k gwreiddiol a'r rasmus plant.

Gwelwyd cynrychiolaeth dda o Sarn Helen yn rhedeg a chefnogi gyda Donna Teed Davies yn ennill y ras 5k i fenywod mewn 25.42 a Daniel Willoughby yn ennill y ras mewn 22.31.

Yn y ras 10k, o Landdewi i Dregaron a nôl, cipiodd Sarn Helen y gwobrau yng nghategori'r dynion dros 40 gyda Nigel Davies

yn fuddugol mewn 40.16, Michael Davies yn 2il mewn 41.21 a Mark Rivers yn 3ydd mewn 41.52. Dau o ieuenctid y clwb oedd y nesaf i groesi'r llinell gyda Tomos Morgans yn gorffen mewn 42.16 a Thomas Willoughby mewn 42.49. Gorffennodd Huw Price yn fuddugol yng nghategori'r dynion dros 50 mewn 43.55 a Tony Hall yn ennill categori'r dynion dros 60 mewn 44.29. Cafodd Dee Jolly ras arbennig o dda gan orffen eiliadau ar ôl y rhedwraig cyntaf mewn 42.52 a Helen yn gorffen yn 3ydd merch ond yn gyntaf yng nghategori'r merched dros 45 mewn 50.53.

Hefyd, ar Ddydd Sul 12fed o Fawrth, cynhaliwyd y ras iconig "Barry 40", sy'n gofyn i'r rhedwyr redeg bron 161 lap o'r trac sy'n her nid yn unig i'r corff ond i'r meddwl. Ken Caulkett oedd yn ymgymryd â'r sialens eleni gyda chefnogaeth ei wraig Jenny, teulu Rees Tanrhos a Richard Marks. Gorffennodd Caulkett y sialens yn 4ydd mewn amser anhygoel o 4 awr 58 munud.

Cellan



Cynhaliwyd gweithdy yn Neuadd Cellan ar y 25ain o Fawrth i'r rhai hynny oedd a diddordeb i greu eich 'fascinator' eich hun gyda Yolande Fret-Howells. Ar ddiwedd y dydd roedd pawb wedi llwyddo ac yn barod i'r achlysur i'w wisgo.

Teulu'r Cymwynas Olaf

Cyhlaiwyd noson lansio cyfrol newydd gan Wasg Carreg Gwalch yng Nghlwb Rygbi Llanbedd y ddiweddar sef 'Teulu'r gymwynas Olaf'. Cyfrol am fusnes o Lanbedd yw hi sef Gwilym Price ei Fab a'i Ferched gan yr awdur Lyn Ebenezer. Dywed yr awdur "Nid adrodd hanes busnes llwyddiannus yn unig y ceisiwyd ei wneud. Teimlwn hefyd fod trefnu angladdau yn rhywbeth tywyll, rhywbeth a ystyrir yn tabŵ. Mae'r gyfrol yn torri'r tabŵ hwnnw gan agor llygaid y darlennydd i'r ffaith nad yw trefnu angladdau'n wahanol i unrhyw fusnes arall." £5 yn unig yw cost y gyfrol sydd ar werth mewn siopau llyfrau Cymraeg.



Darlith Goffa

Daeth tyrfa fawr o bobl ynghyd i glywed yr awdur a phrif ddarlledwr newyddion y BBC, Huw Edwards, yn traddodi Darlith Goffa Cliff Tucker 2017 ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ar 10 Mawrth.



Testun ei ddarlith oedd 'Ar drywydd y "Ginshop": Capeli'r Cymry yn Llundain', a chafwyd cyflwyniad gloyw ar hanes lliwgar Cymry Llundain gyda'r pwyslais ar eu haddoldai, yn gapeli gan mwyaf, ond heb anghofio bod pum eglwys Anglicanaidd hefyd wedi bodoli ar un adeg lle cynhelid cyfarfodydd Cymraeg.

Mae'r achosion Cymraeg yn deillio o ddechrau'r ddeunawfed ganrif pan ddechreuwyd cynnal cyfarfodydd mewn adeiladau digon tlodaidd yr olwg yn ardal Lambeth. Prif noddwr yr achos gwreiddiol oedd Edward Jones o Lansannan a gadwai 'Ginshop' yn y ddinas. Yr oedd yn berchen hefyd ar nifer o dai a siopau, a hyd yn oed y capel gwreiddiol yn Wilderness Row fel y daeth i'r amlwg yn ddiweddarach. Datblygodd yr achos hwn yn sail i Gapel Jewin yn y pen draw, ond bod y safle wedi ei symud i St Paul's i'r gogledd o'r afon. Codwyd capel hardd yno ar droed yr ugeinfed ganrif ond fe'i bomiwyd yn 1940 a pharhaodd yn adfail tan 1961 pan agorwyd y capel presennol ar ei newydd wedd.

Trwy gyfrwng map a lluniau niferus, dangoswyd mai tridegau'r ugeinfed ganrif oedd penllanw capeli Llundain gyda channoedd lawer o aelodau yn y capeli a rhai cannoedd o blant yn yr ysgolion Sul. Yn ogystal ag olrhain hanes Capel Jewin, cafwyd cyfeiriadau at nifer o gapeli eraill o bob enwad, gan gynnwys capeli Boro, Mile End, King's Cross, Charing Cross, Clapham Junction a Castle Street.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Lywydd y Brifysgol, Dr Brinley Jones, a chafwyd pryd o fwyd blasus i bawb yn dilyn y ddarlith yn Ffreutur y Brifysgol. Trefnwyd y ddarlith gan Dr Rhiannon Ifans, Cyfadran y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Roedd yn sicr yn noson o ddiddanwch a dysg, ac un a fydd yn sefyll yn y cof am hir amser.

Diwrnod Canoloesol

Ddydd Sadwrn, Mawrth 25ain, fe wnaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Ganoloesol drwy gynnal ei Diwrnod Canoloesol teuluol cyntaf yn Llanbedd.

Mynychodd dros 200 o bobl y digwyddiad llwyddiannus hwn a oedd yn cynnwys brwydrau wedi'u hail-greu; offeren canoloesol; perfformiadau o gerddoriaeth ganoloesol a darlleniadau o farddoniaeth ganoloesol.

Cafodd ymwelwyr y cyfle i roi cynnig ar amryw o grefftai a gemau canoloesol yn ogystal â phrofi cynhyrchiad theatr stryd arbennig o Robin Hood.

Yn ystod y dydd, cafodd pobl gyfle i glywed mwy am ystod o brosiectau ymchwil canoloesol y Brifysgol gan gynnwys Prosiect Ystrad Fflur; Cymru Fynachaidd; y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd; y Comisiwn Brenhinol; Tystion Dinas Abertawe a Llong Casnewydd.

Roedd hefyd yn achlysur er mwyn i'r Brifysgol ddathlu ei henw da ar gyfer darparu rhaglenni Astudiaethau Canoloesol ac i gydnabod ei rôl bwysig ym myd addysgu hanes canoloesol.

Am wybodaeth bellach ynglyn ag unrhyw rai o'r rhaglenni Astudiaethau Canoloesol a gynigir yn Y Drindod Dewi Sant, cysylltwch â'r Athro Janet Burton drwy e-bostio j.burton@uwtsd.ac.uk

Apêl Cymorth Cristnogol

APÊL CYMORTH CRISTNOGOL UNDEB BEDYDDWYR CYMRU
Gwella Gwasanaethau Iechyd Mamol yng ngogledd Ghana
£67,077.73

Llongyfarchiadau gwresog iawn i eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru am gasglu £67,077.73 yn ystod eu Hapêl 2016 tuag at brosiect Cymorth Cristnogol yng ngwlad Ghana. Codwyd £27,077.73 yn fwy na'r nod gwreiddiol.

Canolbwyntiwyd yr apêl ar wella gwasanaethau iechyd mamol yn rhannau gogleddol y wlad. Tra bod Ghana wedi mwynhau llwyddiant economaidd cymharol, mae'r rhan ogleddol yn parhau i ddioddef lefelau uchel o dlodi a newyn, yn enwedig mewn iechyd mamol. Mae partner Cymorth Cristnogol yn Ghana, sef SEND Ghana, wedi gweithio gyda chymunedau i hyfforddi, calonogi ac addysgu'r boblogaeth o fanteision y gwasanaeth iechyd mamol sydd ar gael iddynt, a'u galluogi i sicrhau mwy o gymorth gan ei llywodraeth.

Mae effaith y fath waith yn galonogol iawn gan fod llawer mwy o famau beichiog yn ymweld â'r clinigau fisoedd ynghynt nag yn y gorffennol. Yn ogystal, maent yn derbyn cynghorion a meddygaeth fodern ac yn penderfynu rhoi genedigaethau yn y clinig ym mhresenoldeb bydwagedd a hyfforddwyd, yn hytrach nag yn eu cartrefi eu hunain. Golyga hyn eu bod yn derbyn cefnogaeth gyson drwy gyfnod eu beichiogrwydd ac yn medru cael cymorth ychwanegol pe cyfyd problemau.

Y nod a osodwyd i'r apêl oedd £40,000, ond y mae Bedyddwyr Cymru wedi dangos haelioni enfawr trwy gasglu llawer mwy na'r ffigwr hwn. Bydd yr arian ychwanegol yn fodd i brynu adnoddau ar gyfer rhai o'r clinigau iechyd mamol.

Dywedodd y Parchedig Denzil John, Cadeirydd Pwyllgor Eglwys a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, "Rwy'n hynod falch fod cymaint o'n heglwysi wedi ymateb mor gadarnhaol i'r apêl, sy'n profi eu bod yn barod iawn i ymestyn allan at y rhai sy'n llai ffodus na ni. Diolchwn bod bywydau llawer o famau a phlant yn mynd i'w harbed drwy'r Apêl hon."

Ychwanegodd y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, "Gan fod y prosiect hwn yn un a oedd yn derbyn cefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r nod ariannol bellach wedi'i gyrraedd, mae hyn wedi helpu datgloi €500,000 yn ychwanegol tuag at y gwaith angenrheidiol o achub bywydau yn Ghana."

Wrth dderbyn y sicr ar ran Cymorth Cristnogol, diolchodd y Parchedig Tom T Defis am ymdrech hael eglwysi'r Bedyddwyr, gan nodi bod yr arian yn mynd i wneud cymaint o wahaniaeth i'r mamau a'u plant yn Ghana. Diolchodd hefyd am fod yr ymateb i'r apêl yn tanlinellu perchnogaeth Undeb Bedyddwyr Cymru, ynghyd â'r enwadau eraill, o waith Cymorth Cristnogol.

Ychwanegodd Huw Thomas, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru ei ddiolch a'i longyfarchiadau am yr ymdrech enfawr hon, a chyfeiriodd at neges a dderbyniwyd oddi wrth Ernest Okyere, Rheolwr Gwlad i Cymorth Cristnogol yn Ghana, a ddywedodd, "Yr ydym yn teimlo'n ostyngedig iawn bod UBC wedi dewis cefnog'r prosiect hwn a mi roedd yn hyfrydwch cael croesawu ymwelwyr o Gymru llynedd. Ar ran pobl Ghana, plis derbyniwch ein diolchgarwch a chadarnhad bod y prosiect hwn yn helpu i achub bywydau yn ein gwlad ni."



Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion 2017



Unawd Piano Bl. 7 – 9 – Austin Thomas, Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Unawd Piano Bl. 7 – 9 – Sioned Fflur Davies, Ysgol Bro Pedr 2il.



Unawd Llinynnol Bl. 6 ac Iau – Niah Bouvet, Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Deuawd Cerdd Dant Bl. 7 – 9 – Sara Elan a Beca Ann, Aelwyd Llambod 2il.



Grŵp Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 2il.



Dawns Werin Bl. 6 ac Iau [hyd at 100] – Ysgol Llanwnnen 2il.



Grŵp Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 10 a dan 19 oed – Aelwyd Llambod 1af.



Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [D] – Ysgol Bro Pedr 2il.



Cerddorfa / Band dan 25 oed – Ysgol Bro Pedr 1af.
[Mae Isobel, Austin a Lauren yn absennol o'r llun]



Côr Gwerin Tri Llais Bl. 13 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 1af.

Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion 2017



Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed
– Alpha Evans, Ysgol Bro Pedr 2il.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llambled 1af.



Ela Mablen Griffiths-Jones,
Cwrtnewydd, Ysgol Aberaeron
– Unawd Bl. 2 ac Iau 1af; Llefaru
Unigol Bl. 2 ac Iau – 1af; Cyflwyno
Alaw Werin Bl. 6 ac Iau - 1af.



Parti Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llambled 1af.



Côr S.A. Bl. 7 – 9 – Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am – 7pm

01239 801 601

Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd
Sadwrn o 7am - 7pm



**Beth am fynd allan am y diwrnod ar y
Bws - gallai fod yn docyn delfrydol**

Beth am ymweld a'r amrywiaeth o atyniadau sydd gan Sir
Gaerfyrddin a Cheredigion i'w cynnig yn ystod eich gwyliau...
rhowch gynnig ar Bwcabus!

Mae Bwcabus yn galluogi pobl i deithio rhwng pentrefi a threfi lleol ym mharth
Bwcabus neu i gysylltu â'r prif wasanaethau bysiau gan deithio ymhellach i
lefydd fel Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chaerfyrddin.



Yn ddiweddar cafodd ardal
weithredol y gwasanaeth
Bwcabus ei hymestyn i
gynnwys llefydd
ychwanegol.

Gweler y mapiau ardal
sydd ar ein gwefan i gael y
manylion, neu ffoniwch ein
canolfan alwadau os ydych
yn yr ardal ar hyn o bryd.



Diolch

Dymuna Stan a Vivienne Evans, Coed y Waun, ddiolch yn gynnes i bawb a ddanfonodd neges i'n llongyfarch ar ddathlu ein Priodas Aur ar yr 18fed o Chwefror.

Dymuna Rhodri a Nerys Beaumont, Trefin ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau a dderbyniwyd adeg achlysur ei priodas ym mis Chwefror. Gwerthfarwogir eich caredigrwydd.

Clwb 225 mis Mawrth

1. Dana Jones, Cae Coedmor, Cwmann, 211. 2. Graham Howell, Manorafon, New Street, 143. 3. Huw a Rose Jones, Pantycelyn, Cwmann, 56. 4. Terry Davies, Murmur Teifi, Cwmann, 71. 5. Mr a Mrs Graham Hope, Postgwyn, Cwmann, 195. 6. Mrs Mary Randell, Blaencwm, Cwmann. 157.

7. Mrs Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann. 154.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago Cwmann – Mawrth 2017

1. D J Evans, Blaenbidernyn Isaf, Pencarreg. 135. 2. Hal ac Eli, 2 Cysgod y Coed, Cwmann.78. 3. Jean Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg. 58. 4. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann. 22. 5. Merry Makers, Cwmann. 6. Ceinwen Evans, Felinfach, Cwmann.30. 7. Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann. 62.

1. Helen Davies, Tanyresgair, Cwmann. 33. 2. Eifion Williams, Crown Stores, Llambled. 25. 3. Ceinwen Evans, Felinfach, Cwmann.28. 4. Lena Williams, 39 Heol y Hathren, Cwmann.22. 5. Eleanor Davies, Pleasnat View, Llanfair Road. 12. 6. Sian Davies, Market Place, Llambled.108. 7. Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann.62.

Pen Blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Mair Williams, Doleinon sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig ychydig yn ôl. Gobeithio eich bod wedi cael amser da.

Priodas Aur

Dathlodd Dennis a Margaret Jones, Llysonnen eu pen blwydd Priodas Aur yn ystod y mis. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn ag Anne Lewis, Amanda, David a'r teuluoedd Hillcrest ar farwolaeth annisgwyl ei mab, brawd, ewythr John Lewis, Esgaircorn. Hefyd estynnwn ein cydymdeimlad â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Ysgol Carreg Hirfaen



Bu plant yr ysgol yn brysur iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr ysgol yn Neuadd Coedmor ar Fawrth y 1af. Cafwyd diwrnod hyfryd yng nghwmni'r Beirniad Lena Daniel ac Elin Williams. Agos iawn oedd y cystadlu ond Cothi a gipiodd dlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd. Enillwyd cadair blynyddoedd 5 a 6 am stori Gymraeg gan Llyr Ifan Davies, a'r darian am y gwaith Saesneg gorau gan Efan Thomas. Enillwyd cadair Cyfnod Sylfaen gan Trystan Evans o flwyddyn 2. Roland Weedon a enillodd gadair blynyddoedd 3 a 4 ac Hannah Middleton y darian am waith Saesneg. Llongyfarchiadau enfawr i bawb.

Yr unigolion a'r pwyntiau uchaf yn Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen oedd Llyr Ifan yn CA2 a Jac Jones yn y Cyfnod Sylfaen.



Prysur hefyd oedd ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd Llanbed. Cipiodd Trystan Evans y drydedd wobwr am adrodd blwyddyn 2 ac Iau a chanu cerdd dant blwyddyn 2 ac Iau. Cafodd grŵp llefaru Bl 6 ac Iau a grŵp yr ymgom y drydedd wobwr â'r Parti Unsain a'r côr yn cipio'r ail wobwr. Llongyfarchiadau i grŵp dawnsio disgo'r ysgol a fu'n cystadlu yng Ngŵyl Ddawns Rhanbarth Ceredigion yn Neuadd ysgol Bro Teifi yn ddiweddar. Mwynhaodd y merched a'r bechgyn y profiad yn fawr iawn. Diolch i holl blant a'r hyfforddwy.

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol a fu'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Traws-gwlad Dyfed yn ystod y mis. Llongyfarchiadau anferthol i Cafi Gregson a lwyddodd i gipio'r drydedd wobwr yn ras y merched blwyddyn 4. *[gweler llun o Cafi ar y chwith]*

Mae Jac Rees o Ysgol Bro Pedr wedi bod yn hyfforddi sgiliau rygbi i ddisgyblion CA2 pob prynhawn dydd Mawrth ers dechrau'r flwyddyn. Mae'r plant wedi elwa'n fawr o'r profiad ac wedi cael llawer o fwynhad.

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi bod yn brysur iawn yn ystod y tymor gan drefnu noson sinema ym mis Chwefror a noson Gawl a Chân ar ddechrau mis Mai. Cefnogwyd y ddwy noson yn dda iawn a braf oedd gweld neuadd Coedmor yn llawn a phawb yn cael llawer o hwyl a sbri gan fwynhau'r diddanwch. Edrychwn ymlaen am y gweithgareddau i ddod.

Llongyfarchiadau anferthol i Deina Evans o flwyddyn 1 am gipio'r wobwr gyntaf yn Ffair Aeaf Amaethyddol Frenhinol Cymru. Dyma lun o Deina gyda'i gwaith llaw. *[gweler llun o Deina ar y chwith]*

Yn ystod mis Chwefror buodd Plant a Staff CA2 am dridiau i Wersyll yr Urdd, Caerdydd.

Dyma adroddiad Hari Jones o flwyddyn 3.

Ar ôl bore cyffrous ar y bws aethon ni i sglefrïo iâ ac roeddwn yn wych. Cwmpais i dair gwaith ond roeddwn llawer gwell na Mr Evans, ac oedd yn dala mlaen i'r ochr. Erbyn y nos aethon i fowlio. Cawsom lawer o hwyl a sbri gyda ein ffrindiau. Nid oedd fy ffrindiau a fi wedi cysgu llawer ond ymalen a ni y diwrnod wedyn i gael taith o gwmaps y Bae. Ar ôl hynny aethom ar y cwch cyflym! WAW! Roedd yn hwyl ac aethom dros donnau anferthol. Cyn cychwyn nôl i'r Gwersyll aethom i Techniquet. Yn hwyrach

aethom i'r sinema i weld Sing. Roedd Sing yn wych.

Y bore nesaf aethon i nofio a bues i lawr y llithren goch ac oren. Yr un oren oedd yr un gyflymach ac es i lawr fel mellten. Diolch i holl staff yr ysgol am roi'r profiad gwych yma i mi Roeddwn wedi mwynhau mas draw ond yn falch i weld fy ngwely nos Fercher.

Gwobr Cenedlaethol

Llongyfarchiadau i Rhian Twynog am ennill Gwobr Adnoddau Dynol Proffesiynol y Flwyddyn mewn seremoni yn Stadiwn Swalec Caerdydd yn ddiweddar. Trefnwyd y digwyddiad gan Rwydwaith Adnoddau Dynol Cymru sef prif rwydwaith ar gyfer gweithwyr adnoddau dynol proffesiynol yng Nghymru.

Y beirniaid anrhydeddus oedd Alison Wright – Cyfarwyddwr cwmni Callan Wright; Genevieve Ryan – Pennaeth Adnoddau Dynol Acorn Group, a Fiona Sinclair, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol Darwin Gray.

Mae Rhian yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Adnoddau Dynol Tai Ceredigion wedi ei lleoli yn y swyddfa ar safle'r hen orsaf drenau yn Llanbed. Cyflogir 140 o weithwyr i gyd gan y gymdeithas.

Y ddwy arall a gafodd eu henwebu hefyd ar gyfer yr un categori ym maes cymdeithasau tai oedd Jayne Jones, Hafod ac Eleri Jane Edwards, Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Tipyn o anrhydedd felly i ferch leol am rhagori yn y maes arbenigol hwn. Da iawn wir.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Bu pob un o'r disgyblion yn perfformio yn ein heisteddfod ysgol ar ddydd Gŵyl Dewi a chafwyd diwrnod pleserus tu hwnt. Diolch i'n beirniad ar y dydd sef Miss Lois Williams ac i Miss Nicola Davies a Mrs Meinir Evans a fu'n beirniadu'r gwaith ysgrifenedig a'r Celf. Tŷ Pedr oedd yn fuddugol yng nghystadlaeth y côr i'r Cyfnod Sylfaen gydag Oscar yn arwain, gyda Steffan yn ail gyda Kira yn arwain a Dewi yn drydydd gyda Alecia yn arwain.



Gwnaeth Mrs Wyn gyflwyno tarian i gapteiniaid tŷ buddugol Eisteddfod y Cyfnod Sylfaen sef Liam a Kuba o Pedr gyda 57 o bwyntiau, ail oedd tŷ Steffan gyda 53 o bwyntiau a Dewi yn drydydd gyda 40 o farciau. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gipio gwobrau yn Seremoni Cadeirio'r Cyfnod Sylfaen:-
Storïau Cymraeg: 1af Harri, 2ail Jacob 3ydd Natasha.
Storïau Saesneg: 1af Drizzle, 2ail Lucas, 3ydd Violet.

Cafwyd yr un brwdfrydedd yn Eisteddfod y prynhawn gyda'r Adran Iau. Dawnsyr Disgo Steffan a ddaeth i'r brig a chôr buddugol yr Adran Iau oedd Dewi gyda Taidgh yn arwain, côr Pedr gyda Johnny yn arwain yn ail a chôr Steffan yn drydydd gyda Kacper yn arwain.

Llongyfarchiadau i'r rhai a dderbyniodd wobrau yn seremoni cadeirio'r ysgol.

Storïau Cymraeg :-



3 Dulas 1af Arlo 2ail Lowri 3ydd. Sofie 4 Creuddyn 1af Cerys Angharad 2ail Caitlin 3ydd Maja. 5 Creuddyn/Grannell 1af Regan 2ail Ceris 3ydd Sara. 6 Grannell 1af Niah 2ail Sean 3ydd Ifan.

Storïau Saesneg:-



3 Branwen 1af Arthur 2ail Kyna 3ydd Lily. 4 Bran 1af Erin 2ail Oskar 3ydd Isaac. 5 Llew 1af Elizabeth 2ail Antoni 3ydd William. 6 Arthur 1af Tilly 2ail Cerys 3ydd.



Cyflwynodd Mrs Wyn darian i gapteiniaid y tŷ buddugol ar ddiwedd diwrnod llwyddiannus iawn sef tŷ Dewi.

Diolch i holl staff yr ysgol am baratoi'r disgyblion ac am y trefniadau manwl ac i Miss Sandra Davies am gyfeilio.



Llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhedeg yng nghystadlaeth Trawsgwlad y Tair Sir. Daeth Faye yn bumed yn y ras i ferched blwyddyn 6 ac fe fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Dyfed. Llongyfarchiadau hefyd i Faye, Evie a Jess ar ddod yn ail fel tîm o ferched blwyddyn 6. Da iawn chi – tipyn o gamp.

Diolch i'r Canon Andy am ddod atom unwaith eto i rannu neges bwrpasol ac i gyflwyno caneuon

newydd i gyfeiliant y gitar.

Bu disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 ar daith i Amgueddfa Abertawe i edrych ar dystiolaeth ac arteffactau a chael cyflwyniadau diddorol yn ymwneud â'r thema "Blitz".

Hefyd daeth cwmni "Mewn Cymeriad" i'r ysgol a chafodd disgyblion bl 4, 5 a 6 orig ddifyr iawn yn gwyllo perfformiad dramatig egniol am y "Blitz" a chael cyfle hefyd i gymeryd rhan. Gwisgodd y plant Sanau Gwirion i'r ysgol i godi ymwybyddiaeth o Syndrom Down's.

Diolch i Mrs Pink sydd wedi bod i mewn yn yr ysgol yn gwneud gwaith Celf gyda rhai o ddisgyblion yr ysgol. Daeth PC Alun atom unwaith eto i wneud cyflwyniadau diddorol a phwrpasol gyda'r plant ym mlynnyddoedd 1, 2 a 3 gan ganolbwyntio ar ddiogelwch ar y we.

Ar ddiwrnod y llyfr daeth nifer o'r disgyblion i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr a diolch i Miss Heini Thomas am feirniadu'r gystadlaeth ac i Co-op am noddi'r gwobrau. Hyfryd oedd gweld Cerys Angharad Jones disgybl ym mlynnyddyn 4 yn perfformio gydag Ysgol Gerdd Ceredigion yng nghystadlaeth Côr Cymru ar y teledu yn ddiweddar. Daeth rhai disgyblion i mewn â anifeiliaid anwes i'r ysgol fel rhan o'r thema Anifeiliaid Bach – cŵn bach a hyd yn oed neidr. Bu'r plant yn cael cyfle i fwytho ac i ofyn cwestiynau amdanynt.

Yn Eisteddfod Gylch yr Urdd bu nifer o'r disgyblion yn llwyddiannus a diolch o galon i bawb sydd wedi bod yn hyfforddi, cynorthwyo a chefnogi – gwerthfawrogwn hyn yn fawr.

Unawd bl 2 ac iau – Drizzle 3ydd. Unawd bl 3 a 4 – Cerys Angharad 1af Unawd bl 5 a 6 – Ffion 2ail ac Ifan 3ydd. Alaw Werin – 2ail Cerys Angharad. Llefaru bl 5 a 6 – 2ail Ifan Meredith. Llefaru i ddysgwyr bl 2 ac iau – 1af Drizzle. Llefaru i ddysgwyr 3 a 4 – Kyna 2ail. Llefaru i ddysgwyr 5 a 6 – Rihanna 2ail a Shannon 3ydd. Grŵp llefaru i ddysgwyr – 1af. Parti Unsain i ddysgwyr – 1af. Grŵp Llefaru iaith gyntaf – 1af Parti Unsain 1af Côr yr ysgol 1af. Ymlaen wedyn i'r Eisteddfod Sir a phleser pur oedd cael gwyllo'r plant yn perfformio ar lwyfan Pafiliwn Pontrhydfendigaid. Llongyfarchiadau i Drizzle Thomas Llefaru i ddysgwyr 1af, Cerys Angharad Jones Unawd Telyn 1af, Grŵp Llefaru iaith gyntaf 1af, Cerys Angharad Jones Unawd 2ail, Ffion Davies Unawd Piano 2ail, Dawnsio Disgo 2ail, Dawnsio Aml-gyfrwng 2ail, Parti unsain iaith gyntaf 2ail, Parti unsain ail-iaith 2ail, Parti llefaru ail-iaith 2ail, Niah Bouvet Unawd llinynnol 3ydd. Pob lwc i bawb sydd yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol.

Rydym yn ffodus iawn fel ysgol gan fod nifer o rieni / ffrindiau'r ysgol wedi noddi citiau chwaraeon newydd i'r ysgol – gwisg rygbi, gwisg pêl-droed bechgyn a merched a gwisg aml-sgiliau. Diolch yn fawr iawn i Mrs Tina Saunders a chwmni ailgylchu LAS, Mr Ian Morgan Cwmni M and E Blinds, Mr Bouvet, Drivers Arms a Siop Premier am eu haelioni – gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn. [Gweler lluniau ar y dudalen nesaf].


Ysgol Bro Pedr

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont

Mr Bouvet, Drovers Arms sydd wedi noddi gwisg pêl-droed i ferched Ysgol Bro Pedr gyda Miss Nia Davies (athrawes).



Mrs Tina Saunders ar ran cwmni LAS sydd wedi noddi gwisg aml sgiliau i ddisgyblion Ysgol Bro Pedr gyda Mr Geraint Thomas (athro).



Mrs Tina Saunders ar ran Cwmni LAS sydd wedi noddi gwisg pêl-droed i fechgyn Ysgol Bro Pedr gyda Mr Wyn John (athro).



Mr Ian Morgan cwmni M and E Blinds sydd wedi noddi gwisg rygbi i Ysgol Bro Pedr gyda Mr Heulyn Roderick (athro). Diolch hefyd i gwmni Premier am noddi.



Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphoto restoring.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeur a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Shiloh a Soar Llambled Nos Wener.

Cawsom de Cymreig blasus wedi ei baratoi gyda'r merched i gofio ein Nawddsant Dewi. Ond yr oedd gwledd o ganu Cymraeg i ddilyn. Deuawd swynol gan Eleri Roberts a Trefor Puw. Eleri wrth gwrs, yn gantores o fri ac arweinydd corau lleol a Trefor yn Faledwr a'r ddau yn enillwyr yn y genedlaethol. Y mae y ddau yn byw yn ardal Aberystwyth, Commins Coch a Threfenter. Swynodd y ddau ni â'u doniau canu gwefreiddiol ac fe'n diddanwyd gyda chaneuon am Gymru a'i phobl. Noson arbennig iawn. Diolch i bawb, y ddau westeion a phobl Noddfa a ymunodd â ni. Diolch i Twynog a drefnodd y noson a iechyd da iddo ar ôl triniaeth feddygol.

Llwyddiant Eisteddfodol



Ifan Meredith, Llambled yn ennill y cyntaf ar yr unawd dan 12oed yn Eisteddfod Swyddffynnon.

Cymdeithas Ddiwylliadol Eglwysi Shiloh a Soar

Bu Cymdeithas Ddiwylliadol Eglwysi Shiloh a Soar yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant ar y nos Wener Mawrth 10 yn Festri yn Shiloh. Braf oedd cael croesawu ffrindiau o Eglwys Noddfa i ymuno gyda ni mewn Tê Cymreig a bu'r gwagedd yn brysus yn gweini wrth y byrddau yn ôl yr arfer.

Roeddem yn ffodus iawn eleni o fedru denu dau o artistiaid dawnus i'n diddanu - sef Eleri Roberts a Trefor Pugh. Mae Eleri yn Arweinydd ar Gôr Merched y Gromlech yn Sir Benfro a Pharti Alawon Gwerin Côr Cantre'r Gwaelod - y ddau gôr wedi ennill mwy nag unwaith yn y Genedlaethol. Enillodd Trefor ar y llaw arall Tlws Lady Herbert Lewis yn y genedlaethol fel y Prif ddatgeinydd mewn Canu Gwerin. Swynwyd y gynulleidfâ ddeallus gan safon y canu ac mi grewyd deusain hyfryd. Roedd yna amrywaith yn y rhaglen o ganu gwerin, cerdd dant, unawd yn y dull canu plygain i un o emynau y Pêr Ganiedydd "O Llefara Addfwyn Iesu" ar y dôn The Rose. Cyflwyniad

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod Gŵyl Dewi Cylch Cinio Llanbed ar yr ail o Fawrth yng Nghlwb Rygbi Llanbed dan lywyddiaeth Mr Aneurin Jones ac yn ôl yr arfer fe groesawyd gwagedd yr aelodau i'r cyfarfod olaf hwn o'r tymor. Eleni eto fe ddathlwyd yr ŵyl trwy gerddoriaeth a chàn. Y gwesteion eleni oedd Bois y Gilfach gyda Heledd Williams yn arwain a chyfeilio. Wedi mwynhau'r wledd arbennig o luniaeth a ddarparwyd unwaith eto gan y Clwb, braf oedd cael mwynhau'r wledd o adloniant a gafwyd i ddilyn.



Cafwyd rhaglen hwyliog ac amrywiol gan y côr drwy ddechrau gyda Gwin Beaujolais (o waith Robat Arwyn a Robin Llwyd ab Owain.) Aethant ymlaen i ganu'r March Glas a Daeth Yr Heniaith Eto Nol i'r Rhondda. Daeth yn amlwg fod nifer o unawdwyr dawnus ymhlith aelodau'r côr. Cafwyd datganiad o Aros Mae'r Mynyddau Mawr gan Arwyn Davies. Fe ganodd Gerallt Owen Tic Toc (trosiad o gân yr Americanwr H C Work - "Grandfather's Clock") yn ddigyfeiliant ac yna cafwyd Cartref gan Eifion Morgan. Mae gan y côr ddigrifwr naturiol iawn hefyd, sef Hywel Lloyd, a chafwyd tipyn o ffraethineb ganddo ef rhwng eitemau'r cantorion. Aeth y côr ymlaen i ganu'r emyn cyfarwydd O Llefara Addfwyn Iesu i alaw gan Robat Arwyn cyn rhoi datganiad o Dyrchefir Fi (geiriau Aled Lewis Evans i alaw gan Rolf Lovland.) Daethant â'u rhaglen i ben gyda Hen Feic Peni-Ffardding Fy Nhaid a chàn Robat Arwyn, Nant Gwrtheyrn cyn canu Brethyn Cartref yn encôr. Rhoddwyd cymeradwyaeth wresog i'r côr a'u harweinydd a chynigwyd diolch ffurfiol iddynt gan Mr Richard Marks.

Yn ddiweddglo i'r tymor fe drosglwyddodd Mr Aneurin Jones lywyddiaeth y Cylch i Mr Richard Marks (sef un o feibion y diweddar Barchedig Dafydd Marks, llywydd cyntaf y Cylch) a chroesawyd Mr Eifion Williams (un oedd yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y Cylch) yn Is-lywydd yn ei le. Aeth y llywydd newydd ymlaen i ddiolch i Mr Jones ac i swyddogion eraill y Cylch am eu gwaith, sef y bonheddwyr Tom James (Trysorydd,) Tim Jones (Ysgrifennydd Cyffredinol,) a Twynog Davies (Ysgrifennydd Siaradwyr) gan nodi llwyddiant arbennig Twynog i drefnu cyfres o westeion ardderchog dros y tymor a fu. Fe fydd y Cylch yn ymgynnull eto yn yr Hydref pan groesawir unrhyw aelodau newydd fydd yn awyddus i ymuno.

hynod safonol a chartrefol gan y ddau a phawb mor werthfawrogol o'i doniau amlwg. Diolchodd Alun Williams ar ran Eglwys Noddfa am y gwahoddiad ac mi wnaeth y Llywydd, Phillip Lodwick hefyd ategu'r diolch. Noson hyfryd i gloi gweithgareddau'r flwyddyn.

Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Llanybydder a Llambled

Cafwyd noswaith arbennig yn Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant at 17 Mawrth. Côr Meibion y Mynydd, Ponterwyd oedd yn ein diddanu. Gwnaethpwyd £1,867-78 o elw.

Talwyd y diolchiadau gan ein Llywydd y Cynghorydd Ivor Williams. Diolchodd i bawb am ein cefnogi. Mae ein cyfarfod blynyddol ar y 9fed o Fai yn eglwys Sant Tomos am 7 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un i ymuno â ni.

Gair o Ddiolch

Pleser o'r mwyaf yw cael cofnodi fod y Gymanfa Ganu o emynau Pantycelyn a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Eglwys Shiloh wedi codi y swm anrhydeddus o £915. Danfonwyd y swm ymlaen at waith di-flino Cymorth Cristnogol yn Ne Swdan lle yn ôl yr amcangyfrif mae 4.9 miliwn o bobl angen bwyd ar frys. Heblaw am hyn, fe wyddom

bellach am yr argyfwng sydd yn wynebu nifer eraill o wledydd Dwyrain Affrica. Mae'r angen yn enfawr. Hoffwn ddiolch yn gynnes iawn i gymaint ohonoch sydd mor gefnogol i ymdrechion y pwyllgor lleol o Gymorth Cristnogol i helpu'r di -freintiedig yn ein byd.

Twynog Davies (Cadeirydd Cangen Llanbed a'r Cylch o Gymorth Cristnogol).

Shiloh a Soar

Cynhelir oedfa arbennig ar fore Sul y Blodau - Ebrill 9 am 10.30 pan y disgwylir Miss Bethan Davies o Aberafan i wasanaethu. Bu Bethan allan yn ddiweddar yn ynysoedd y Philipines i brofi y tloidi a'r problemau cymdeithasol sydd yn bodoli yno a sut y medrwn ni helpu. Fe ddangosir lluniau yn y cyflwyniad. Helpu trigolion y Philipines yw prosiect Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2017 gan obeithio y byddwn yn hael yn ein cyfraniadau wrth gofio bod tua hanner o boblogaeth yr Ynys yn byw mewn tloidi.

Merched y Wawr

Bu ein cyfarfod Mis Mawrth yn wahanol i'r arfer. Penderfynwyd dathlu Gŵyl Ddewi drwy gael te prynhawn yng nghaffi'r Pantri.

Darparwyd danteithion arbennig ar ein cyfer gan Delyth, y perchennog. Estynnodd Elin groeso i bawb a chydymdeimlodd â Pat Davies a oedd wedi colli chwaer ac Eiry Jones, Maesllan, a oedd wedi colli brawd. Ar ôl bwyta a phawb wedi cael eu digoni fe wnaeth Elin ein Llywydd a Gillian ein Trysorydd ddarparu adloniant ar ein cyfer. Gosodwyd posau amrywiol a diddorol a'r enillwyr oedd Aerwen Griffiths, Ann Morgan a Janet Evans. Cytunodd Mary, Veronica, Morfudd a Dilwen i ymweld â chartref preswyl Hafandeg.

Enillydd y raffl misol oedd Gillian. Talwyd y diolchiadau gan Gwen am brynhawn gwahanol a dywedodd y dylem wneud hyn bob blwyddyn.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn ôl yn Festri Shiloh ar y 10fed o Ebrill pan fyddwn yn croesawu Huw Ffash atom. Bydd aelodau o ganghennau eraill o Ferched y Wawr yn ymuno â ni i fwynhau a chymdeithasu a bydd un aelod lwcus yn cael gwedd newidiad. Edrychwn ymlaen yn fawr at y noson ar-bennig yma pan fydd camerau "Heno" yn bresennol hefyd.

Cymdeithas Hanes

Roedd cyfarfod Mis Mawrth yn un hynod o ddiddorol, pan ddaeth Gerald Morgan, yr hanesydd

Llanbedr Pont Steffan

enwog, ac awdur nifer o lyfrau ar hanes Ceredigion a Chymru i roi hanes teulu Dinefwr. Croesawyd a chyflwynwyd ef gan Selwyn Walters, ac roedd maint ei gynulleidfa yn eithriadol dda.

Rhannwyd achrestr y teulu i'r aelodau, yn hwyluso dilyn yr hanes o un genhedlaeth i'r llall, trwy ugain o genedlaethau. Sôn am goeden deuluol!

Wedi cyfnod Yr Arglwydd Rhys a'i feibion yn cynnal llysoedd yng Nghastell Dinefwr uwchlaw dyffryn Tywi, codwyd y Tŷ Newydd yr ydym yn adnabod heddiw fel Dinefwr. Bu cyfnodau llewyrchus, ac eraill o gwmp eithriadol yn hanes y teulu, ond roedd Gerald Morgan yn ei gymharu megis ffenics yn codi unwaith eto o'r llwch.

Caed hanes Rhys ap Thomas, a'i gysylltiad â Harri Tudur, a chwmp Rhisiart III ar Faes Bosworth. Syr Rhys wedyn yn dod i safle uchel yn Llys Harri'r VII, a'r Tuduriaid yn cydnabod eu tras Cymreig. Etifeddodd ei ŵyr, Syr Rhys ap Griffith cyfoeth eithriadol yn ddwy-ar-bymtheg oed, ond trawyd y teulu pan ddiennyddiwyd ef yng nghyfnod Harri'r VIII.

Trwy briodi i deuluoedd ariannog, daeth cyfoeth yn ôl eto i Ddinefwr, a bu'r teulu'n garedig a haelionus i Gymru. Daeth cyfnod y diwydiannau mawr, - haearn a glo ayyb, a'r elw'n sylweddol am gyfnod, ond yna wedi'r Rhyfel mawr, a'r trethi uchel a osodwyd ar y perchennog - os y bu'n ffodus i ddychwelyd, - gwelwyd cwmp llawer o'r tai mawr.

Gwerthwyd Dinefwr a'i droi'n ganolfan i'r celfyddydau erbyn y 1960au, a bu rhaid gwerthu'r tir o'r gwmpas ychydig wedyn. Prynwyd Dinefwr gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 2003, ac erbyn hyn mae'n gyrchfan i filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.

Diolchwyd yn ddiffuant i Gerald Morgan am noson ddiddorol a difyr, ac os am ddarllen rhagor o hanes Dinefwr, prynwch ei lyfr 'Dinefwr: A Phoenix in Wales'.

Bydd y cyfarfod nesaf, nos Fawrth, Ebrill 18fed, pan fdd y Parch. Bill Fillery yn rhoi hanes y Ffordd o Lundain i Dŷddewi.

Amgueddfa Llambled

Bydd yr Amgueddfa yn agor am dymor newydd Dydd Mawrth, Ebrill 4ydd, ac yna ar agor bob dydd Mawrth, Iau a Sadwrn 10 yb - 4 yp tan ddiwedd mis Hydref.

Mae yna gasgliadau newydd i'w gweld, felly dewch i mewn i weld yr hyn sydd ar gael: Gwisgoed Cymreig; Storiâu lleol o'r Rhyfel mawr, 1917; Arddangosfa gan Gymdeithas hanes Llanfair Clydogau; Hanes Terfysgoedd Beca; Casgliad y Brifysgol a mwy. Bydd

yna groeso cynnes yn eich aros gan ein tîm o wirfoddolwyr. Cefnogwch eich Amgueddfa leol.

Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o'r aelodau ynghyd i Ysgol Bro Pedr nos Fawrth 28 Chwefror. Teuliwyd noson hwyliog iawn yng nghwmni Elin Williams sydd bob amser yn barod i roi o'i hamser i aelodau'r Aelwyd. Fe'i croesawyd yn gynnes gan Elan. Yna rhannwyd yr aelodau i ddau dîm a bu pawb yn cymryd rhan mewn cwis ysgafn yn cynnwys cwestiynau cyffredinol, dyfalu'r diwn a llenwi'r bylchau gan ddilyn trefn y rhaglen 'Blankety Blank'. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd i Elin gan Beca Jenkins am noson llawn hwyl a sbri ac addysgiadol hefyd!

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Llwyddiant Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambled

Llongyfarchiadau i aelodau Adran ac Aelwyd yr Urdd ar eu llwyddiant mawr yn Eisteddfodau Rhanbarth y Mudiad gan ddod i'r brig mewn 9 cystadleuaeth.

Dyma'r canlyniadau:

Deuawd a deuawd cerdd dant dan 12 oed 1af Cerys Angharad ac Alwena, parti unsain dan 12 oed 1af, grŵp llefaru dan 12 oed 1af, côr dan 12 oed 3ydd, grŵp llefaru dan 15 oed 1af, parti deusain dan 15 oed 2ail, cyflwyniad dramatig dan 12 oed 1af, grŵp dawnsio dan 19 oed 1af, deuawd cerdd dant i flynyddoedd 7-9 2ail Elan a Beca, unawd a'r alaw werin 19-25 oed 1af Heledd Besent, unawd allan o sioe gerdd 2ail Heledd Besent.

Mae dyled yr aelodau yn fawr iawn i Rhiannon, Elin a Sian am roi o'u hamser i'w hyfforddi heb anghofio cyfraniad gwerthfawr Lois fel cyfeilydd a Llinos fel trefnydd ymarferion. Mae aelodau'r Adran a'r Aelwyd yn lwcus iawn ohonynt. Gwerthfawrogi eu gwasanaeth yn fawr iawn.

Pob lwc i bawb yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhen-y-Bont ar Ogwr ar ddiwedd Mai.

Carnifal

Mae aelodau'r pwyllgor yn chwilio am wirfoddolwyr newydd i ymuno â nhw er mwyn sicrhau parhad yn nhrefniadau'r carnifal. Os oes gan unrhywun ddiddordeb dylent gysylltu ag Annwen Jones y cadeirydd.

Cân i Gymru

Llongyfarchiadau i Richard Marks am lwyddo i gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Cân i Gymru ar S4C yn ddiweddar gyda'i gân 'Gelyn y Bobl'.



Noddfa

Braf oedd gweld cynulliad teilwng o aelodau, rhieni a ffrindiau'r achos wedi wedi dod ynghyd i Noddfa ar nos Sul y Mamau i oedfa arbennig yng ngofal yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet. Mewn pennill a chân bu'r plant y bobol ifanc a'r rhieni yn diolch am gariad mam, yn dathlu gorfoledd y Pasg a gwyrt y Gwanwyn gan wneud eu gwaith yn raenus iawn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Sioned a bu Efan, Osian Roberts a Sion Ifan yn cyhoeddi'r emynau. Y llefarwyr oedd Lisa, Beca, Elan, Llinos a Delyth Davies. Darllenwyd adnodaau o'r Beibl gan Alwyn, Osian Jones a Delyth Morgans Phillips a bu Cerys Angharad, Grace, Helen a Sian Rhandir yn gweddio. Hefyd mwynhawyd sgwrs gan Sian Croesor, Gwenllian a Ffion yn cyfeirio at ddigwyddiadau Sul y Palmwydd oedd yn llawn hiwmor ond hefyd â neges bwysig i bawb. Pleser yn ôl yr arfer oedd gwrando ar y plant ieuengaf sef Tudur, Rhun, Darcey, Ifan, Trystan Bryn, Trystan Wyn, Lynwen a Cai yn canu a llefaru mewn ffordd mor naturiol gan ddod â gwên i wynebau pawb. Yn ogystal â hyn, ymunodd y plant i gyd i ganu dau emyn cyfoes - un yn sôn am Iesu fel brenin y byd mawr crwn a'r llall yn clodfori'r gwanwyn. Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr hefyd gan ddatganiad hyfryd o'r emyn 'Y Trydydd Dydd' i gloi gan y merched ifanc a'r Mamau. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Delyth a bu Alwena, Janet a Sioned yn cyfeilio i'r plant. Diolchodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos i bawb am eu cyfraniadau arbennig iawn a thalodd deyrnged uchel i Janet am ei pharatoadau ac i'r rhieni am bob cymorth a chefnogaeth.

Estynnodd Janet ei llongyfarchiadau i Cerys Angharad ac i Elan a phawb oedd yn aelodau o bartion Aelwyd ac Adran Llambled ac Ysgol Bro Pedr ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion. Aeth pawb o'r oedfa wedi derbyn bendith yng nghwmni'r ieuencid ac yn uchel ei canmoliaeth o'u cyfraniadau a'u doniau amrywiol.

Siop Siarad y dysgwyr yn Llambled.



Dyma griw hawddgar o ddysgwyr a Chymry Cymraeg yn mwynhau sgwrs am 10.30 ar ail ddydd Iau y mis yn yr Hedyn Mwstard. Mae'r dysgwyr yn frwd i ddysgu a chyfathrebu gyda siaradwyr Cymraeg ac mae croeso mawr i unrhywun i ymuno â ni. Diolch i Myfanwy, Mary a Verina am eu cymorth i'r trefnydd Ann Morgan bob mis. Diolch hefyd i'r Hedyn Mwstard am ddefnydd y Cwtsh hefyd ac am goffi bendigedig.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwyd â Alan a Sulwen Morgan, Llwynbedw, Rhodfa Glynhegog ar golli ei frawd, Dannie a oedd yn byw yn Synod Inn ar ddiwedd y mis ac yntau yn ei 90au.

Llanbedr Pont Steffan



Nia Davies, Trysorydd Côr Cardi-Gân yn trosglwyddo sic o £300 i Ifor Williams a Jennie Bracher, Llywydd ac Ysgrifennydd 'Sefydliad Prydeinig y Galon' Cangen Llambled a Llanybydder.

Codwyd swm anrhydeddus o £1200 mewn Cymanfa Garolau a Noson Caws a Gwin - ond fe brynwyd 2 diffibriliwr – i bentrefi Cribyn a Dihewyd a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i Swyddogion 'Sefydliad y Galon' yn lleol. Gweler yn y llun aelodau'r Côr.

Capel Brondeifi

Ar ddydd Sul, 5ed o Fawrth, cynhaliwyd y gwasanaeth Gŵyl Ddewi, o dan ofal plant yr Ysgol Sul a Theulu Ffosyffin. Bu'r gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis, yn annerch ar Ddewi Sant hefyd. Cafwyd perfformiad cofiadwy o ddawns werin gan blant yr Ysgol Sul, a'r gweinidog yn cyfeilio'n fedrus ar yr accordion. Yn dilyn mwynhaodd pawb wledd oedd wedi ei pharaoi gan Mrs Delyth Jones a'r teulu. Cafwyd cawl a bara a chaws, tarten afalau, reis a bara brith. Digon o fwyd i borthi'r pum mil a blas hyfryd i'r cyfan. Diolch i Delyth a'r teulu am eu gwaith gwyh fel arfer - y cyfan yn goron ar achlysur arbennig.

Ar y Sul canlynol (12fed o Fawrth)

cafwyd cymundeb yng ngofal y gweinidog, a'r cyn-weinidog, y Parch Goronwy Evans, oedd yn y pulpud y Sul wedyn - y 19eg o Fawrth. Ar Sul y Mamau, y 26ain o Fawrth, y gweinidog oedd yn ôl wrth yr awennau.

Ar Fore Sul, Ebrill 9fed, am 10 o'r gloch, fe fydd y Parch Alun Wyn Dafis yn arwain y gweithgareddau ar Sul y Blodau. Yna, ar yr 16eg o Ebrill, cynhelir Sul Pawb Ynghyd a Sul y Rhoddion. Mae hwn yn draddodiad sydd wedi ei sefydlu ers hanner canrif a mwy, lle mae aelodau o bell ac agos yn cael cyfle i ddychwelyd i Frondeifi i fwynhau prynhawn arbennig yng nghwmni ei gilydd. Croeso cynnes i bawb eleni eto.

Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd cylch Llambled yn Ysgol Bro Pedr yn ôl yr arfer a bu cystadlu brwd o safon uchel. Prawf o hyn oedd gweld nifer o'r cystadleuwyr yn dod i'r brig yn Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion. Llywydd yr Ŵyl eleni oedd Anthea Jones a chyflwynodd rodd hael iawn ac anerchiad diddorol yn sôn am ei chyfnod fel aelod o'r Urdd yn Llambled. Diolchodd Llinos iddi am ei charedigrwydd mawr.

Ar ddiwedd y dydd talodd Elin Jones deyrnged haeddiannol i Bennaeth a staff Ysgol Bro Pedr am bob cydweithrediad, i swyddogion Brondeifi a Noddfa am gael cynnal y rhagbrofion yno, i arweinyddion y llwyfan a'r stiwardiaid, i Llinos, Hedydd a Janet am eu gwaith gyda'r canlyniadau, bechgyn y sain, ac i bawb a gyfrannodd tuag at ddiwrnod llwyddiannus iawn. Mae ein dyled yn fawr iawn i Dorothy Williams a fu'n brysur yn paratoi bwyd i'r beirniaid a'r cyhoedd yn ystod y dydd. Gwerthfawrogi hefyd wasanaeth ein beirniaid Lona Brierley, Emyr Wynne Jones a Lowri Steffan heb anghofio cyfraniad gwerthfawr Eirian Jones a Lois Williams ein cyfeilyddion.

Trefnwyd yr Eisteddfod eleni gan Ysgol Bro Pedr gyda chymorth Adran ac Aelwyd yr Urdd. Diolch o galon i bawb.



Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [Ysg dros 50] – Ysgol Bro Pedr 2il.

**ETHOLIAD CYNGOR SIR CEREDIGION
WARD LLANBEDR PONT STEFFAN
DYDD IAU 4^{YDD} MAI, 2017**

Hag Harris




LLAIS CRYF DROS LLANBEDR PONT STEFFAN



Hyrwyddwyd gan R.G. Harris, 1 Tŷ Hen Uchaf, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion ar ran R.G. Harris, 1 Tŷ Hen Uchaf, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion

**ETHOLIAD CYNGOR SIR CEREDIGION
WARD LLANBEDR PONT STEFFAN
DYDD IAU 4^{YDD} MAI, 2017**

Ivor Williams



YN WEITHGAR DROS BOBL Y DREF



Hyrwyddwyd gan J.I. Williams, 10 Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7EH

Llanwnnen

Dyddiad i'ch dyddiaduron

Cynhelir Prynhawn Agored i ddathlu cyfraniad yr ysgol i'r gymuned dros y ganrif ddiwethaf, ar brynhawn Sadwrn, 8fed o Orffennaf. Croeso cynnes i bawb. Mi fydd mwy o wybodaeth yn dilyn yn ystod y misoedd nesaf. Mi fydd hefyd cyfle i chi archebu copi o lun arbennig o'r ysgol gan yr artist Rhiannon Roberts - unwaith eto mi fydd mwy o wybodaeth yn dilyn yn ystod y misoedd nesaf.

Ysgol Llanwnnen

Bu'n mis yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth a daeth llwyddiant i'r ysgol wrth i ni gipio gwobrau yn y ddau. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu.

Eisteddfod Gylch Parti Unsain - 3ydd

Eisteddfod Dawns Rhanbarth: Dawnsio Gwerin B16 ac iau i ysgolion tan 100 o blant - 2ail

Diolch yn fawr i Mrs Elonwy Davies am gyfeilio i ni ac i gyn ddisgybl o'r ysgol, Catrin Rosser, am gynorthwyo gyda'r dawnsio disgo.

Bu nifer o ddisgyblion yr adran iau yn Llambod yn cystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn wych a braf oedd gweld nifer o blant yn gorffen yn y deg uchaf. Bydd y rhain yn awr yn cynrychioli yr ysgol yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Rhanbarth yr Urdd ar ddiwedd y mis.

Yn ddiweddar bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn Aberaeron mewn gwyl rygbi cyffwrdd. Roedd yn gyfle gwyh i gael profiad o chwarae yn erbyn nifer fawr o ysgolion Ceredigion. Diolch i'r Urdd am drefnu unwaith eto.

Roedd mis Mawrth yn fis i ddathlu nifer o wahanol bethau ac fe gafwyd cyfle i ddathlu Dydd Gwyl Dewi gyda chinio blasus o gawl a phice ar y maen. Diolch i Shan Cook am baratoi y bwyd. Roedd y disgyblion yn edrych yn hyfryd yn eu dillad traddodiadol Cymreig. Cafwyd hefyd noson arbennig ar yr 3ydd o Fawrth yn Noson Cawl a Chân y pentref. Bu disgyblion yr ysgol yn perfformio eitemau'r Eisteddfod a bu aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn ein diddanu ni.

Dathlwyd hefyd ar Ddiwrnod y Llyfr gyda'r disgyblion yn derbyn rhodd o lyfr yr un gan yr Ysgol. Mwynhaodd pawb y diwrnod arbennig.

Bydd y Gymdeithas Rieny ac Athrawon yn trefnu taith gerdded ar brynhawn ddydd Gwener 12fed o Fai. Mae croeso i gyfeillion ymuno â'r daith o Ysgol Llanwnnen ac o gwmpas Neuadd. Byddwn yn cychwyn o'r ysgol am 6yh.

Pasg Hapus i chi gyd.

Coleg Cymraeg

Carys Mair Jones

Prifysgol Aberystwyth: Daearyddiaeth

Enw llawn: Carys Mair Jones

Dod yn wreiddiol: Pentrebach, Llanbedr Pont Steffan

Ysgol/Coleg ar gyfer lefel A: Ysgol Bro Pedr

Prifysgol: Aberystwyth

Blwyddyn: 2

Cwrs prifysgol: Daearyddiaeth

Pam dewis astudio'r pwnc gradd? Rwyf wrth fy modd yn teithio'r byd a chwrdd â phobl newydd o gefndiroedd newydd, felly pa gwrs sy'n well na Daearyddiaeth er mwyn fy ngalluogi i deithio'r byd wrth astudio? Gwnaeth fy nhaith i Batagonia yn Hydref 2014 gadarnhau fy mrwdfrydedd yn y maes hwn, a phan welais fod Aber yn cynnig y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, ni wnes i feddwl ddwywaith am y penderfyniad!

Pam dewis astudio yn y Gymraeg? Cymraeg yw fy mamiaith ac mae'n rhan bwysig iawn o fywyd bob dydd, felly roedd cael astudio fy mhwc gradd drwy'r Gymraeg yn angenrheidiol. Cymraeg oedd yr iaith roeddwn yn ei defnyddio bob dydd yn yr ysgol, felly roeddwn yn hyderus i barhau a fy addysg drwy'r Gymraeg.

Beth yw'r peth gorau am astudio cwrs yn rhannol drwy'r Gymraeg?

Dim cyfieithu! Dw i'n ofnadwy yn cyfieithu a byddai hyn yn mynd â llawer o amser ychwanegol. Ond hefyd, mae'r niferoedd sydd yn y darlithoedd Cymraeg yn llawer is o gymharu â'r rhai Saesneg sydd â thua 100 o fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu eich bod yn dod i adnabod eich darlithwyr a phe bai unrhyw broblem o gwbl yn codi, un ai gyda'r gwaith neu gyda'r iaith, maen nhw bob tro ar gael i'ch helpu!

Unrhyw gyngor i ddarpar fyfyrwyr sy'n poeni am astudio trwy'r

Gymraeg? Does dim byd i boeni amdano! Mae yna ystod eang o gyfleusterau a chymorth gyda'r Coleg Cymraeg i'ch cefnogi ar hyd y daith. Bydd astudio drwy'r Gymraeg yn codi eich hyder wrth ddefnyddio'r iaith ac yn ychwanegu sgiliau newydd i'ch CV.

A fydddech chi'n annog eraill i ymgeisio am ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg

a pham? Yn bendant! Pam lai? Beth sydd gennych i'w golli? Cael arian i astudio yn eich iaith naturiol ... yn sicr ewch amdani! Mae'r arian wrth y Coleg wedi bod yn help enfawr i brynu deunyddiau (a chwpl o ddrincs!) ond nid dyna'r unig beth. Mae'r coleg yn darparu cymaint o gymorth i fyfyrwyr iaith gyntaf ac ail iaith allu astudio yn y Gymraeg. Wrth dderbyn ysgoloriaeth, byddwch yn cael cyfle i ymgeisio am y dystysgrif sgiliau iaith a fydd yn profi eich sgiliau iaith wrth i chi ymgeisio am swyddi wedi i'ch cyfnod byr yn y brifysgol ddod i ben! (Mae amser yn hedfan yn y brifysgol, felly gwnewch y gorau o bob cyfle a ddaw!)

Pam ymgeisio i fod yn llysgennad a beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf? Ymgeisiais i fod yn llysgennad er mwyn dangos fy ngwerthfawrogiad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Heb y sefydliad hwn, ni fuaswn wedi medru astudio fy nghwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r arian yn gymorth mawr wrth dalu am deunyddiau dysgu. Rwy'n edrych ymlaen at fod yn llysgennad er mwyn hyrwyddo gwaith y coleg, i annog eraill i ymgeisio am yr ysgoloriaethau ac i fanteisio ar bob cyfle a ddaw!

Un peth a ddysgais yn ifanc oedd 'Paid â byth dweud na wrth ddim, yn y pendraw fyddi di'n falch dy fod wedi ei wneud'. Gobeithiaf hefyd y bydd darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol yn dod yn fwy ymwybodol o waith y coleg, ac yn manteisio ar y cyfleoedd fel rydym ni wedi gwneud! Hyderaf y bydd y Coleg yn parhau i ddatblygu'n flynyddol, gan ei fod yn rhan allweddol o addysg uwch yng Nghymru.

Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am fod yn y brifysgol? Mae'r ymdeimlad o gymuned yn gryf yma yn Aber a does dim byd yn ormod o drafferth i'r darlithwyr cyfrwng Cymraeg (sy'n fwy fel cyfeillion na darlithwyr!). Yn ogystal â hyn, mae'r gystadleuaeth am swyddi yn cynyddu'n flynyddol, felly teimlaf fod astudio drwy'r Gymraeg yn rhoi rhywbeth ychwanegol i mi.

Diddordebau hamdden? Clwb Ffermwyr Ifanc, nofio a chymdeithasu!

Hoff bethau? Teithio, fy ngwely a bwyd wrth sgwrs!

Cas bethau? Adar, tywyllwch, a gwartheg!

Hoff raglen / ffilm Gymraeg? www, yn bendant Y Gwyll! Pwy feddyliai fod Aber a Cheredigion yn gallu codi gymaint o ofn arnaf!

Unrhyw wybodaeth ddiddorol arall amdano?

Dw i'n lletchwith ofnadwy ar adegau! Mae 'disaster' a fy enw yn cael eu defnyddio yn yr un frawddeg yn ddyddiol!



Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Clive a Helen Roberts, Bro Llan ar ddod yn ddatcu a mamgu, mab bach - Alfie, i Meinir ac Arwel.

Dathlu

Dathlodd Alan Jones, Annedd Wen a Richard Thomas, Talgrwn ben-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

Cefn Hafo



Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Gwasanaethau Coed Llambod



Gwêl-y-Coed, Cwmann

Llambod, SA48 8EL

01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNYWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambod**

■ 01570 422206 ■ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul



Enw: Leanne James
Oed: 19
Pentref: Llambed
Gwaith: Cynorthwydd dysgu yn
Ysgol Bro Pedr
Partner: Sengl
Teulu: Glenda (Mam), Mark (Dad)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Cwca da mamgu a sunbatho yn yr
ardd gyda dadcu.

**Hoff raglen deledu pan oeddet
yn blentyn.**
The Bill

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn
blentyn.**
I barchu bobol ac i weithio'n
galed.

**Taset ti'n gallu mynd nôl mewn
amser, beth fyddet ti'n dweud
wrth dy hun yn 16 oed?**
Sdim sbel wedi mynd ers ni ond ar
y funud nagoes.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Westlife fi'n credu

**Pan oeddet yn blentyn, beth
oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**
Plismones

**Beth oedd y peth ofnadwy wnest
ti i gael row gan rywun?**
Dim byd, wastad yn bihafio!

**Y peth mwyaf rhamantus a
wnaeth rhywun i ti erioed?**
Cal mwelis deiamwnt wrth Iari
(5 oed) ar fy mhenblwydd yn
ddeunaw, heb ffeindio'r dyn cywir
eto!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar fy ngwyliau yn yr haul

Beth yw dy lystenw?
Leeroy

**Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti
a pham?**
Caramel Digestive, sweet tu fas
soft tu fewn.

**Beth yw'r peth gorau am dy
swydd bresennol?**
'rewarding' gweithio gyda phlant
ag anghenion dysgu a'u gweld
nhw'n datblygu.

**Beth yw'r peth gwaethaf am dy
swydd bresennol?**
Ffaelau cael gwyliau pryd bynnag.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Pawb yn adnabod ei gilydd

**Y peth gwaethaf am yr ardal
hon?**
Gorfod trafaelu os am fynd i rywle



Pa mor wyrdd wyt ti?
Dad sydd yn ngofal yr ail-gylchu
yn tŷ ni!

**Pa iaith wyt ti'n defnyddio
gyntaf?**
Cymraeg

**Pa fath o berson sy'n mynd o
dan dy groen?**
Pobol genfigennus

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000
mewn awr?**
Bond Street, Llundain! Sain credu
bydde ise awr hyd yn oed.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Wrth golli mamgu

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Boxing Day ar ôl diwrnod yn y
clwb rygbi!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Parking fine wrth fynd i'r deintydd
dros hanner tymor.

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n
broffesiynol?**
Derbyn swydd gyda Heddlu Dyfed
Powys mis diwethaf

Ac yn bersonol?
Clywed bod Iari a Zara Mai wedi
cael eu geni, bydden i ar goll heb y
ddau ohonynt.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Dim byd eto

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n

bert?
Digon o golur

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n
heini?**
Bounce class bob wythnos

**Beth yw'r cyngor gorau a
roddwyd i ti?**
Work hard, play hard! fel wede'
dadcu Dai

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Colli mamgu a dadcu mor sydyn
llynedd

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Serchog, gweithgar, helpful

**Beth yw barn pobl eraill
amdanat ti?**
Dim idea, bydd rhaid i chi ofyn i
nhw

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Audi A1

Beth yw dy hoff air?
Lyfli

Beth yw dy hoff wisg?
Gwisg yn barod am noson allan

A'th hoff adeilad?
Y Shard yn Llundain, am olygfa!

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod
yn sownd ar ynys anghysbell?**
Rhys Webb

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese – sweet and sour a reis

Beth yw dy ddiod arferol?
Vodka, lime a lemond

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Cylchgrawn 'Look' yn wythnosol
Beth yw dy hoff arogl?
Petrol

Sut wyt ti'n ymlacio?
Ar y sofffa

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi
fwyaf aml?**
Instagram

**Sawl ffrind sydd gennyt ti ar
facebook?**
1,087

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?
Dibynnu pwy dwi'n siarad a

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n
achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**
Lluniau

**Ar beth y gwnest orwario arno
fwyaf?**
Heblaw y car, handbag Mulberry!

**Pa beth wyt ti'n ei drysori
fwyaf?**
Gemwaith mamgu

**Pwy oedd y dylanwad mwyaf
arnat ti?**
Dadcu a Mamgu

**Pwy sy'n ddylanwad arnat ti
nawr?**
Y merched, bydden i ar goll
hebddyn nhw

Y gwyliau gorau?
Efrog Newydd i ddathlu fy
mhenblwydd yn 18

**Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet
ymweld â nhw cyn dy fod yn
hanner cant?**
Pen y Fan, Portmeirion a Caldy
Island

**Pa dair gwlad yr hoffet fynd
iddyn nhw cyn marw?**
Awstralia, Dubai, a Thailand

Unrhyw dalentau cudd?
Cwca caes bach

**Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n
'neud cyn mynd i'r gwely?**
Tynnu colur bant a edrych ar y
ffon.

**Ble fyddi di mewn deng
mlynedd?**
Gobeithio wedi datblygu fy
hunan o fewn Heddlu Dyfed
Powys a wedi setlo lawr gyda
rhywun

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog



Dathlwyd ein diwrnod Cenedlaethol mewn steil wrth i bob plentyn yn yr ysgol wisgo mewn gwisg Gymreig ac aethpwyd yn fintau gref i Eglwys Llanwenog i gynnal cyngerdd / eisteddfod. Bu'r plant yn perfformio fel unigolion, mewn grwpiau ac hefyd fel côr yr ysgol.

Uchafbwynt y prynhawn oedd seremoniau cadeirio'r beirdd buddugol. Enillwyd cadair y Cyfnod Sylfaen gan Erin Potter Jones. Diolch yn fawr i Mrs Gwyneth Davies, Ysgol Cwrtnewydd am feirniadu portreadau'r disgyblion. Aeth yr ail safle i Fflur Morgan ac yn drydydd roedd Gethin Jones Thomas a Gwenno Mills.

Y dasg ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 oedd ysgrifennu cerdd am y Gwanwyn a'r beirniad oedd Mr Ion Thomas, Pennaeth y Gymraeg, Ysgol Gyfun Gwynllyw. Diolch yn fawr iawn iddo.

Y buddugol oedd Elen Morgan am gerdd safonol iawn. Cafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad. Yn ail roedd Luke White Tune, ac yn drydydd roedd Elin Lloyd.

Derbyniodd Elen ac Erin gadeiriau pren hardd yn rhoddedig gan Mrs Enfy Morgan yn ystod eu seremoniau ar y llwyfan. Cyd ganwyd ein Hanthem Genedlaethol ar ddiwedd y seremoni hefyd.

Hoffem fel ysgol i ddiolch yn fawr iawn i Mrs Elonwy Davies am ei chymorth wrth gynorthwyo i hyfforddi'r plant ac am gyfeilio. Mae bob amser yn barod a'i chymwynas.

Hon oedd yr achlysur olaf siwr o fod i'r plant berfformio ar y cyd yn yr Eglwys fel Ysgol Llanwenog ac roedd yn ddathliad hyfryd.

Roedd hi'n ddiwrnod Cenedlaethol y Llyfr ar ddechrau mis Mawrth hefyd ac fe drefnodd ein Cyngor Ysgol brwdfrydig weithgareddau i ddathlu. Gwelwyd y plant wedi gwisgo fel eu hoff gymeriadau o lyfrau cyfredol adnabyddus. Roedd yn ddiwrnod da iawn.

Bu un disgybl sef Osian Mills yn ymweld â dosbarth y Cyfnod Sylfaen fel rhan o gynllun pontio er mwyn iddo deimlo'n gyfforddus wrth ddechrau yn yr ysgol ar ôl y Pasg. Roedd wedi mwynhau yn fawr iawn.

Bu'r plant hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod gylch yr Urdd a drefnwyd yn hwylus gan Ysgol Bro Pedr eleni. Diolch iddynt.

Aeth nifer o'r plant i'r rhagbrofion a mwynhau y profiad o gystadlu.

Sicrhaodd Erin Potter Jones, Fflur Morgan ac Elen Morgan le ar y llwyfan ac fe berfformiodd y dair yn hyfryd. Roedd Erin yn fuddugol yn yr unawd, daeth Fflur yn gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru a chipiodd Elen y drydedd wobwr am lefaru hefyd.

Hefyd gwnaeth y Parti Unsain yn dda iawn a chipio'r ail wobwr. Diolch i Mrs Eirlys Jones am arwain y parti ac i Mrs Elonwy Davies am gyfeilio.

Aeth disgyblion Cyfnod Sylfaen y dair ysgol ar ymweliad cyffrous i Gastell Aberteifi yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Miss Deloni Davies am drefnu'r daith. Cafodd y plant gyfle i fynd o gwmpas a dysgu am hanes pwysig y castell.

Mae plant blwyddyn 4 y tair ysgol wedi mwynhau sesiynnau creadigol gyda'r bardd Ceri Wyn Jones fel rhan o brosiect cyffrous. Maent wedi bod yn edrych ar enwau ffermydd ac ardaloedd yn yr ardal ac mae'r gwaith yn parhau.

Llongyfarchiadau mawr iawn i Erin ac i Fflur, y ddwy yn cipio'r drydedd wobwr yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid.

Llongyfarchiadau hefyd i Elen a oedd yn aelod o Gyflwyniad Dramatig Adran Llanbed a enillodd y gystadleuaeth a bydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Genedlaethol ym Mhen y Bont ar Ogwr.

Trefnodd y Cyngor ysgol weithgareddau ar ddiwrnod Y Trwyn Coch hefyd. Cafodd y plant llawer o sbri yn gwrando ar eu cyd ddisgyblion yn dweud jocs. Enillwyd cystadleuaeth CA2 gan Teleri Evans ac enillwyr y Cyfnod Sylfaen oedd Noa Potter Jones ac Ethan Rees.

Apêl am hen luniau.

Fel y gwyddoch mae ysgol Llanwenog yn dathlu 150 o flynyddoedd eleni ac hefyd yn cau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Bydd dathliad yn cael eu drefnu yn yr ysgol ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf y 15fed am 2 o'r gloch. Gofynnwn yn garedig os oes gan rywun hen luniau o'r ysgol, a fydddech mor garedig a dod â hwy atom er mwyn i ni allu eu sganio i greu arddangosfa. Gallwn eich sicrhau y bydd pob llun yn cael y gofal mwyaf. Edrychwn ymlaen at eich gweld a diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 25 o'r aelodau ynghyd yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd i gyfarfod mis Mawrth, gyda Dilwen George yn y gadair. Croesawyd pawb y gynnes ganddi a dywedodd fod hwn yn gyfarfod hanesyddol, gan mae dyma'r tro olaf i ni gwrdd yn ysgol Cwrtnewydd, cyn bod y staff a'r plant yn symud i Ysgol Dyffryn Cledlyn yn Nrefach. Dymunwyd yn dda iddynt wrth symud.

Dymunwyd gwellhad buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar, a rhoddwyd cyfarchion penblwydd i ddwy o'r aelodau fu'n dathlu yn ystod y mis.

Wedi gorffen â'r cyfarfod busnes, daeth Plant yr Ysgol atom i'r neuadd. Croesawyd ni gan Mrs Gwyneth Davies, gan ddweud y byddai'r plant yn mynd trwy eu rhaglen o eitemau amrywiol. Pleser pur oedd gwrando ar y Côr, partion canu a llefaru, yr unawd alaw werin, y sgetsus a'r eitem offerynnol. Y plant ar eu gorau fel arfer, a'r aelodau yn mwynhau pob munud.

Diolchwyd yn gynnes i'r plant gan Brenda Jones, ac i'r staff i gyd am eu gwaith yn paratoi'r plant. Dymunwyd yn dda i'r Parti Unsain a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Gylch, ac a fyddai'n mynd ymlaen i 'Steddfod Sir yr Urdd.

Mwynhawyd lluniaeth ysgafn trwy ddwylo aelodau Cwrtnewydd, a diolchwyd iddynt gan Beryl Lewin.

Bydd cyfres triplau'r haf yn cychwyn ym mis Ebrill, ar y 12fed o'r mis,- yn cael ei drefnu gan Brenda Jones a Sulwen Lloyd. Byddwn yn mynd i Aberfan, Merthyr Tydfil a Chastell Cyfarthfa; y bws i gychwyn o'r garej am 8.30. Enwau i Yvonne 480590 cyn gynted â phosib.

Eglwys Santes Gwenog

Trefnwyd nosweithiau o astudiaethau Beiblaidd, yn berthnasol at Wyl y Pasg, gan y ficer, Suzy Bale. Diolch i bawb a ddaeth i'r nosweithiau hyn. Cynhelir swper Agape nos Iau, Ebrill 13eg am 7 yh. Croeso cynnes i bawb.

Cynhaliwyd noson Cwis, caws a gwin ar y 24ain o fis Mawrth. Diolch i Keith a Lynne Goodall am drefnu, ac i bawb am eu cefnogaeth a'u

cyfraniadau. Gwnaed elw o £131 tuag at goffrau'r eglwys. Derbyniwyd elw o £421 o'r noson yng nghwmni Mr David Cooper, pan fu'n sôn am ei waith fel gofalwr yn Nhŵr Llundain.

Cofiw'n bawb sy'n anhwylyd naill ai gartref neu mewn ysbyty, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid.

Clwb Cant: Mae'r bonws Nadolig wedi ei gynnwys gyda chanlyniadau mis Ionawr.

Ionawr: 1. Margaret Thomas; 2. Phil Tipping; 3. Euros Davies. Bonws: 1. Ann Thomas; 2. Richard Thomas.

Chwefror: 1. Anthony Davies; 2. Ben a Sam Lewis; 3. Geraint Davies.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar ddiwedd mis Chwefror bu'r clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cynilleudfa gyda... y sir. Cawsom 7fed ar ôl ein perfformiad. Llongyfarchiadau mawr i Gethin Hatcher am ddod yn 3ydd fel actor gorau dan 26 ac i Elin Jones ar ddod yn 2il fel yr actores orau dan 26 oed. Yn ystod yr wythnos hyn bu hefyd cystadleuaeth aelod iau a hŷn y sir. Llongyfarchiadau i Briallt Williams ar ddod yn 2il. Yn ddiweddar bu'r gystadleuaeth am Frenhines a dirprwyon y sir.

Llongyfarchiadau i Elin Jones am cael ei dewis fel un o'r dirprwyon.

Fel rhan o ddathlu y clwb yn 60 oed eleni, rydym yn cynnal sialens 60 milltir ar y 17/6/17. Croeso cynnes i unrhywun hoffai gymryd rhan. Cysylltwch â aelod o'r clwb am ffurflen. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan y clwb sef www.cffillanwenog.com.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Fflur Morgan, Rhyd-y-felin ar ddod yn 3ydd yn Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau ac Erin Potter-Jones, Glynfaes ar ddod yn 3ydd yn yr Unawd Bl. 2 ac Iau hefyd. Da iawn chi ferched. Mae'r ddwy yn ddisgyblion yn Ysgol Llanwenog.

Dathlu

Dathlodd Caryl Davies, Drefach ei phen-blwydd yn 30 oed yn ystod y mis. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu!

Taith Dros Fywyd

Cynhelir Taith Dros Fywyd at y 23ain o Ebrill i ddechrau am 10yb o Ysgol Gynradd Llanwenog plis. Taith o ryw 5 milltir gyda lluniaeth i ddilyn. Codi arian tuag at Kidney Research Wales / Sefydliad Aren Cymru.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Megan Davies, Ger-y-nant yn dilyn ei hanffawd yn ddiweddar.

Llangybi a Betws

Hamdden

Croesawyd pawb yn gynnes iawn i'r cyfarfod arbennig yma gan y llywydd Janet Farrow. Dymunwyd adferiad buan i Rowena Williams sydd mewn ysbyty ac i bawb oedd yn sâl adref, a chydymdeimlwyd â Rita Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yn y Castle Green pan y cafwyd cawl traddodiadol bendigedig a maethlon iawn mewn awyrgylch ddeniadol a chyfeillgar, a phwddin blasus gyda phaned a phice bach i orffen y wledd.

Enillwyd y raffl gan Rita Jones, Sally Davies, Jill Smith, Morina Davies, Mair Spate, Elizabeth Evans, Barry Williams, Alunda Jones a Raymond Farrow.

Rhodddwyd pleidlais o ddiolch am yr ymborth blasus a'r croeso cynnes gan Sally Davies.

Trip Dirgel fydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 7fed. Enwau ar frys i'r trysorydd.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â'r teuluoedd canlynol yn eu profedigaeth lem o golli perthynas agos iddynt sef Bro'r Felin, Blaenwern, Coxhead Hall, Glangors, Penbanc a 5 Rhydlanfair.

Hefyd cydymdeimlir â theulu 4 Godre'r Coed a Station View yn Betws yn ei galar ar farwolaeth eu cefnder yn ddiweddar.

Merched y Wawr

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni eto fel arfer yn Y Pantri lle yr oedd gwledd fendigedig yn ein disgwyl. Croesawodd y llywydd Gwyneth Jones bawb i'r achlysur arbennig yma. Traddodwyd y fendith gan bawb i'r achlysur arbennig yma. Traddodwyd y fendith gan Ann Davies. Cawsom gawl traddodiadol blasus, gyda lluniaeth amrywiol ysgafn cyn cael amrywiaeth o bwdin hyfryd a phawb wedi mwynhau yr ymborth penigamp a'r cwmni diddan.

Talwyd y diolchiadau gan Deborah Jones am y bwyd a'r holl waith o baratoi ymlaen llaw. Diolchwyd iddi hithau am fynd â dogfennau i'w scanio. Tynnwyd lluniau yr aelodau gyda'u bagiau – rhodd Merched y Wawr i ddathlu pen-blwydd y mudiad yn hanner cant.

Rhodddwyd y raffl gan Ann Davies, Eleanor Evans a Mair Spate. Enillwyd hwy gan Gwyneth Evans, Irene Lewis a Rita Jones.

C.Ff.I. Bro'r Dderi

Mae wedi fod yn ddechrau prysur a chyffrous i Bro'r Dderi eleni nifer gyda o nosweithau llawn bwrllwn yn y clwb. Nosweithiau megis rhai addysgiadol fel Cymorth Cyntaf efo Dafydd Williams, lle wnaethom

ddysgu llawer o sgiliau sylfaenol i rai llawn sbort, sbri a chwerthin efo Brenhines a ffarmwr ifanc y flwyddyn sef Bethan a Dewi. Cawsom hefyd noson goginio pancws lle wnaeth pawb fwynhau llenwi eu boliau.

Rydym hefyd wedi cael cyfnod prysur o gystadlu o'r cwis sir ar ddechrau'r flwyddyn i'r cystadleuthau siarad cyhoeddus Saesneg a Chymraeg gyda nifer o'r clwb yn cystadlu yn y ddau. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gymryd rhan. Pob lwc i bawb o'r sir fydd yn mynd ymlaen i Gymru.

Wnaeth rhai o'r clwb fynychu dawns dewis swyddogion yn Llanina rhai wythnosau yn ôl. Hoffem fel clwb llongyfarch swyddogion newydd y sir. Mwynhewch pob eiliad ac rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod. Rhaid dweud llongyfarchiadau i swyddogion llynedd ar y gamanfa ganhaliwyd ym Mydroilyn. Noson werthchweil i ddathlu y flwyddyn a fu. Da iawn i Elliw o'n clwb, sydd wedi bod yn ddirprwy am y flwyddyn a wnaeth arwain un o'r caneuon.

Rydym yn edrych ymlaen nawr i'r cyfan sydd ar y gweill o fewn y sir; un ohonynt sef sialens y cadeirydd sef beicio 75 milltir o gwmpas Ceredigion. Mae nifer o'r clwb yn cymryd rhan yn seiclo o Tregaron i Aberaeron, a rydym wedi dechrau ymarfer arni. Gobeitho fydd yn ddiwrnod braf a hwylus i ni ar y dydd !

Mae'r clwb yn cwrdd ar nos Lun yn ysgol y Dderi, Llangybi – croeso cynnes i unrhywun sydd am ymuno â'r clwb. Gallwch gysylltu â un o'r swyddogion am y flwyddyn - cadeirydd Nia Gwyther, is-gadeirydd Lowri Pugh-Davies neu ysgrifenyddes Carys Mair Jones.

Lowri Pugh-Davies



Alaw Jones, 4 oed, oedd enillydd y darian am y mwyafric farciau yn Cyfnod Sylfaen yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi.

Ysgol Y Dderi



Andrew Davies, disgybl Blwyddyn 4 yn Ysgol y Dderi yn ennill gwobr am y dyluniad ar gyfer Calon Wen Organic Milk allan o 350 o ymgeiswyr. Dave Edge, Cadeirydd Calon Wen a Branwen Miles yn cyflwyno Andrew gyda chopi o'i ddyluniad buddugol wedi fframio ynghyd â thocynnau i Fferm Folly.



Briar Miller yn ennill Tarian y marciau uchaf Cyfnod Allweddol 2 a Betrys Llwyd Dafydd yn ennill Cwpan y Cerddor Gorau yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol y Dderi.



Yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol y Dderi enillydd y gadair oedd Martha Haf gyda Gruffydd Llwyd Dafydd a Lili Branwen yn gydradd ail. Mae y trydydd Xenith Silver Birch yn absennol o'r llun.

Priodas Dda



Nerys Douch, Maestroyddin Fawr, Pumsaint a Rhodri Beaumont, Llanon a briodwyd Chwefror 18fed yn Eglwys St Iago, Cwmann.

Amrywiol



Yn ystod dathliadau Gŵyl Ddewi yn y Castle Green aelodau o bwyllgor Lampeter's Farm Women's Club yn cyflwyno sic o £200 yr un i Mr Alwyn Williams, a oedd yn cynrychioli Uned Chemotherapy, Bronglais a Mr Medwyn Parry, yn cynrychioli Blood Bikes Cymru. Codwyd yr arian yn ystod ocsiwn flynyddol y clwb.



Yn ddiweddar agorwyd yr Arddangosfa 'As Good as it Gets' The Rural Industries Bureau Quilts of Wales 1921-1939, arddangosfa o gwiltiau Cymreig arbennig gan Jen Jones o Welsh Quilt Centre, Llanbed. Clare Claridge, aelod o British Quilt Study Group ac ymchwilydd o gwiltiau Aberdare a agorodd y diwgyddiad yn swyddogol. Yn y llun, o'r chwith mae Hazel Newman, Jen Jones, Clare Claridge a Gwenllian Ashley, cyn-guruadur Amgueddfa Ceredigion.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau [D] – Ysgol Bro Pedr 2il.



Côr Bl. 6 ac Iau [Adran] – Adran Llamed 3ydd.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn llwyddiannus yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd yn ddiweddar. Pob lwc i bawb yn Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai.

Clwb Clonc

Ebrill

£25 rhif 377 :

Menna Morgan-Isaac,
Trefin, Heol Pontfaen,
Llanbed.

£20 rhif 415 :

Mair Potter,
Rhoslwyn, Cwmsychpant.

£15 rhif 517 :

Heather Williams,
Maesffur, Heol Maestir,
Llanbed.

£10 rhif 241 :

Ffion Jenkins,
Tyllwyd, Maestir, Llanbed.

£10 rhif 265 :

Eirian Jones,
Hollis, Heol-y-Gogledd,
Llanbed.

£10 rhif 254 :

E. Anne Jones,
18 Ty Rhys, The Parade,
Caerfyrddin.

£5 rhif 58 :

Eurwyn Davies,
47 Heol-y-Gaer, Llanybydder.

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddai a pheiriannau cynysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shw' mae ffrindiau bach? Mae'r haul wedi bod yn gwenu ac mae'r cennin pedr yn flancedi melyn ar bob clawdd. Rwyf wrth fy modd yn chwarae yn yr haul ac yn edrych ymlaen yn fawr i wyliau'r Pasg. Ydych chi'n edrych ymlaen at wyliau ysgol cyn hir? Beth fyddwch chi'n gwneud? Wel mi fyddaf i yn stwffo fy mol yn llawn wyau siocled blasus. Mae fy mam, Lili Loncen, wedi addo gwneud helpa wyau allan yn yr ardd i mi a fy ffrind Gwenno'r gwningen fach wen. Rwy'n siwr y byddaf wedi cael llond bol o fwyta wyau siocled erbyn y diwedd. Ydych chi'n mwynhau bwyta wyau siocled?

Rhywbeth arall a'm gwnaeth i'n hapus yn ddiweddar hefyd oedd derbyn eich holl luniau bendigedig chi. Mi fuodd nifer ohonoch yn brysur iawn ym mis Mawrth a diolch yn fawr i Ceris Gateley o Lanbedr Pont Steffan, Dion Siencyn, Anna Siencyn, Gethin Jones-Thomas a Fflur Morgan o Drefach, Caio Browning o Langybi, Elliw Grug Davies a Soffia Draycott Evenden o Lanybydder, Tomos Ceredig Casso-Davies a Maia Morgans o Demple Bar, Tomos Jac Dalton, Llŷr Dalton a Solomon Edwards o Bont Creuddyn, Lewis Jones o Gilcennin, Ioan Price o Dalsarn, Shiyann Lewis, Emily Rees-Wise, Kayla Thompson, Jayce Jones, Alissa Rees-Wise, Cai Evans a Gwion Miles o Felinfach am liwio lluniau arbennig. Ond y llun a wnaeth fy mhlesio orau y mis hwn oedd un lliwgar ac ardderchog Jasmin Adair, Ysgol y Dderi, Llangybi, Llanbedr Pont Steffan. Da iawn ti!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun y cyw bach yn yr ŵy a chofiwch ddanfôn eich lluniau nôl erbyn Ebrill 24ain.

Ta ta tan toc,



Jasmin
Adair

Enillydd
y mis!

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



DIOGELU ENWAU LLEOEDD (92)

Da oedd gweld i fesur Dr Dai Lloyd ar ddiogelu enwau lleoedd gael ei gyflwyno yn y Cunulliad ar 15 Mawrth eleni. Gwnaeth Dr Lloyd araith rymus a huawdl ac enillwyd cefnogaeth drawsbleidiol.

Cododd y galw am y ddeddf yn sgil cyfres o enghreifftiau o leoedd hanesyddol yng Nghymru yn colli eu henwau. Pe byddai'r mesur wedi llwyddo i dderbyn cefnogaeth mwyafrif aelodau'r cynulliad, mae'n debygol y byddai wedi dod yn gyfraith. Pwysigrwydd hynny yw y byddai enwau lleoedd hanesyddol Cymru yn cael eu gwarchod.

Mae gan amryw gyrff fandad yn llygad y gyfraith i warchod gwahanol elfennau o'r treftadaeth hanesyddol. Yn anffodus dyw'r mandad ddim yn estyn i faes enwau lleoedd. Unioni'r diffyg hwnnw oedd un o fwriadau mesur Dr Dai Lloyd. Roedd yn gam hollol naturiol a rhesymegol. Dagrau pethau yw nad oedd gan Ken Skates, yr Ysgrifennydd Diwylliant, yr hyder i gymryd y cam naturiol hwnnw. Roedd y diffyg hyder hwnnw yn amlwg yn ei eiriau a'i osgo yn ystod y ddadl. Trist oedd gweld bod hyder yn elfen mor brin ymysg rhai aelodau yn neddfwrfa Cymru.

Trueni na fyddai Mr Skates yn ymweld ag Aberaeron. Mae cofeb ger yr harbwr i gofio'r diwydiant llongau sy'n gysylltiedig â'r dref. Dywedir am y llongau hynny: EU HENWAU YW EIN HANES. Mae'n wir am enwau lleoedd yn ogystal.

Gwelwn ddigon o dystiolaeth yma yng ngorllewin Cymru o'r hyn sy'n digwydd. Hyd at yn ddiweddar bu fferm gerllaw Pumsaint o'r enw CEFN BRYN SARTH. Mae'r enw yn cael ei grybwyll mewn dogfennau o'r ddeuddegfed ganrif sy'n nodi'r gwaddol a dderbyniodd Abaty Talyllychau gan yr Arglwydd Rhys. Diflannodd yr enw erbyn hyn a'i ddisodli gan Emerald Valley.

Mae arfer yr Eglwys yng Nghymru wrth werthu eglwysi a ficerdai yn achos pryder, yn ogystal. Pan aiff eglwys ar werth, bellach, rhoddir amod yn gwahardd y prynwr rhag defnyddio enw'r cysegriad gwreiddiol. Mae colli eglwys yn fater o dristwch mawr; mae diddymu enw sy'n rhan o'n treftadaeth hanesyddol yn ergyd bellach.

Mae tuedd gan y Caravan Club i ddiddymu enwau Cymraeg yn ogystal. Yn ddiweddar, ymddangosodd yr enw Shawscross yn enw ar un o safleoedd y gymdeithas hon yng nghefn gwlad Ceredigion.

Mae Cyngor Sir Penfro wedi diddymu'r enw GLYN HODDNANT o eiddo sydd ganddyn nhw yng nghysgod y gadeirlan yn Nhyddewi. A'r enw a ddewiswyd ganddyn nhw oedd Merrivale – gan lwyddo, hyd yn oed, i gamsillafu hwnnw!

Ym mhlwyf Pencarreg gwelwyd marchnata gwely a brecwast dan yr enw Robin's Roost; yn Rhydlewis aeth FFYNNON-WEN yn Bluebell Cottage; yn Llanilar aeth HAFOD-Y-GARTH yn Sunset Lodge; ym Mhont Hirwaun aeth ARWEL yn Monster House. Pwy tybed sydd wedi codi'r arwydd 'Pea Pod Junction' ger Maen-y-groes?

Ni fu ymgynghori lleol o fath yn y byd cyn newid yr enwau hyn. Nid oedd rheidrwydd. Yr hyn a geir yma yw ymyrraeth pen pastwn hollol annerbyniol ym maes treftadaeth hanesyddol: disodli enwau o dras gan ffurfiau gwamal.

Trwy ddefwriaeth yn unig y llwyddwyd i warchod tueddiadau tebyg mewn enwau lleoedd mewn gwledydd megis Awstralia a Chanada.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwau lleoedd.cymru enwau lleoedd@gmail.com

Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion 2017



Cerys Angharad Jones, Ysgol Bro Pedr Unawd Bl. 3 a 4 – 2il ac Unawd Telyn Bl. 6 ac Iau - 1af.



Betrys Llwyd Dafydd, Ysgol Y Dderi - Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 –2il; Unawd Cerdd Dant 2il.



Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau [D] – Drizzle Thomas, Ysgol Bro Pedr 1af.



Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau – Fflur Morgan, Ysgol Llanwenog 3ydd.



Heledd Besent, Aelwyd Llambled – Unawd ac Alaw Werin 19 – 15 oed 1af, Unawd Sioe Gerdd 19 – 25 oed 2il.



Unawd Bl. 2 ac Iau – Erin Potter-Jones, Ysgol Llanwenog 3ydd.



Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 [D] – Zoe Waddington, Ysgol Y Dderi 2il.



Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 [D] – Hugo Waddington, Ysgol Y Dderi 2il.



Parti Deusain Bl. 9 ac Iau [Adran] – Aelwyd Llambled 2il.



Dawns Aml-Gyfrwng Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 2il.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynnyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



Gruffydd Llwyd Dafydd, Ysgol Y Dderi - Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 – 1af; Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 – 2il.



Deuawd a Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac Iau – Cerys ac Alwena, Adran Llambed 1af.
Alwena - Unawd Telyn Bl. 6 ac Iau - 2il.



Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau – Gwennan Owen, Ysgol Llanllwni 1af.



Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed – Nest Jenkins, Ysgol Bro Pedr 1af.



Sara Elan Jones, Ysgol Bro Pedr - Cyflwyno Alaw Werin Bl.7-9 –1af, Unawd Cerdd Dant Bl. 7 – 9 – 2il.



Ymgom Bl. 10 a dan 19 oed – Martha a Cadi, Ysgol Bro Pedr 1af.
Cadi - Monolog Bl. 10 a dan 19 oed - 2il.



Ensemble Lleisio 14 – 25 oed [Aelwydydd] – Aelwyd Llambed 1af.



Grŵp Llefaru Bl. 9 ac Iau [Adran] – Aelwyd Llambed 1af.



Ymgom Bl. 6 ac Iau – Ysgol Y Dderi 1af.



Cyflwyniad Dramatig Bl. 6 ac Iau – Adran Llambed 1af.



Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau – Ysgol Bro Pedr 1af.